# Y DINESYDD

Medi 2019 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 440 £1





*Llun: Cymru Fyw*

## Jim Parc Nest bardd cadeiriol Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019

(gweler td.2)

## Côr CF1 yw Côr yr Ŵyl



*Côr CF1 yn canu ar lwyfan yr Eisteddfod*

# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Dr David Charles**

***Golygydd Hydref***
***Manon Phillips***

Cyfraniadau erbyn 27 Medi i:
manonph@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07931 214907

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau i:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


## Cadair Eisteddfod Sir Conwy yn dod i Gaerdydd

***Llongyfarchiadau fil i T. James Jones o Radur neu Jim Parc Nest, fel y caiff ei adnabod am ennill cadair ein prifwyl eleni am awdl ar y testun 'Gorwelion'.***




Un o feibion Castell Newydd Emlyn yw Jim ac mae'n un o'r triawd o feirdd enwog a fagwyd ar fferm Parc Nest. Nid dyma'r tro cyntaf iddo ddod i'r brig wrth gystadlu ym mhrif gystadleuthau ein prifwyl. Enillodd y gadair am y tro cyntaf yn Eisteddfod Sir y Fflint (2007) a fe a gipiodd y goron yn Eisteddfodau Abergwaun (1986) a Chasnewydd (1988). Y mae hefyd yn gyn-Archdderwydd.

Mae ei awdl fuddugol yn ein hatgoffa am weledigaeth Iolo Morganwg, ac yn gobeithio y bydd gweledigaeth y bardd hwnnw, dros ddau gan mlynedd yn ôl, yn ysbrydoliaeth i ni yn y Gymru fodern.

Er nad yw'r awdl yn y mesurau traddodiadol, mae'r gwaith mewn cynghanedd gyflawn, ac yn aml ceir mwy nag un gynghanedd o fewn un llinell. Mae'r gwaith hefyd yn arddangos gwybodaeth manwl a dealltwriaeth o waith a bywyd Iolo Morganwg.

Roedd y beirniaid - Myrddin ap Dafydd, Llion Jones ac Ieuan Wyn - yn uchel iawn eu clod i'r awdl hon o 'safbwynt ei huchelgais, ei chyfeiriadaeth, ei meddylwaith a'i mydryddiaeth'.

Yn ei feirniadaeth dywed Llion Jones, 'mae lliwiau a haenau ei "stori ganfas" yn amlygu ei feistrolaeth ar holl gyweiriau a rhythmau'r Gymraeg'. Dwed Ieuan Wyn fod y bardd 'yn myfyrio ynghylch swyddogaeth - yn wir, dyletswydd - bardd yn wyneb anghyfiawnder a her parhad cenedl'. Ac mae Myrddin ap Dafydd yn sôn am 'eiriau ac ymadroddion llafar tafodieithol yn rhoi lliw llafar i'r dweud, a rheiny wedyn yn cael eu plethu i ystwytho ymadroddion llenyddol neu greu darn o waith sy'n galw am gael ei lefaru'.

Ym marn y tri mae cerdd Jim Parc Nest yn un ddramatig a dyfeisgar oedd ymhell ar y blaen i unrhyw awdl arall yn y gystadleuaeth ac yn llwyr deilyngu gael ei gwobrwyo gyda chadair ein prifwyl.

Llongyfarchiadau mawr i Jim.

# Enillwyr Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019



Côr Hen Nodiant

Mae ein prifddinas bellach yn enwog am ei hamrywiol gorau. Un o'r rhai mwyaf llwyddiannus, heb os, yw Côr CF1, a enillodd y clod o fod yn gôr yr Ŵyl eleni yn Llanrwst.

Sefydlwyd y côr yn 2002 a than arweiniad Eilir Owen Griffiths maent wedi ennill bri nid yn unig yn yr Eisteddfod Genedlaethol, ond hefyd yn Eisteddfod Pontrhydfendigaid, Gŵyl Gorawl Cheltenham a Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru. Yn ogystal, enillodd y côr gategori Côr Cymysg yng nghystadleuaeth Côr Cymru 2013, ac yn goron i'r cyfan ennill cystadleuaeth National Choir of the Year yn 2014.

Gyda'r clod o fod yn gôr llwyddiannus daeth y cyfle i deithio nid yn unig ledled Cymru ond i wledydd Ewrop a thros yr Iwerydd i'r Unol Daleithiau a Chanada.

Mae'r côr hefyd wedi cyhoeddi mwy nag un CD o'i gerddoriaeth.

Un arall o'n corau llwyddiannus dros y blynyddoedd diwethaf yw Côr Hen Nodiant - côr i bobl hŷn ardal Caerdydd a ffurfiwyd yn 2008 ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a gynhaliwyd yn haf y flwyddyn honno. Mae pob côr sy'n cystadlu yn eu herbyn yng nghystadleuaeth y côr pensiynwyr yn y Genedlaethol yn ymwybodol iawn o'r dasg aruthrol sydd o'u blaenau gan fod Côr Hen Nodiant wedi ennill y gystadleuaeth honno yn ddi-dor ers 2010. Tipyn o gamp yn wir!

Yn ei ddyddiau cynnar arweiniwyd y côr gan y diweddar amryddawn Sioned James. Bellach mae'r awenau yn nwylo diogel Huw Foulkes.

Fel côr CF1, mae Côr Hen Nodiant wedi cyhoeddi CD.

Cafodd Ysgol Plasmawr wythnos lwyddiannus hefyd yn Llanrwst a gellir gweld rhestr o'i llwyddiannau ar dudalen 9. Llongyfarchiadau mawr i'r ysgol hon a ddisgleiriodd eleni nid yn unig yn Llanrwst ond hefyd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Yn anffodus nid yw gofod yn caniatáu adrodd am holl lwyddiannau pobl Caerdydd yma ond mae'r Dinesydd yn estyn llongyfarchiadau calonnog i bawb a fu'n llwyddiannus. Diolch o galon hefyd i bawb a fu'n cystadlu ond na chyrhaeddodd y llwyfan.

## Siopau sy'n gwerthu'r Dinesydd

**CABAN**, Pontcanna
**CANT A MIL VINTAGE**, 100 Whitchurch Rd.
**CHAPTER**, Treganna
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**DINAS COMPUTERS**, Heol y Crwys
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**NISA**, Heol Caerdydd, Dinas Powys
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP BODLON**, Yr Hen Lyfrgell, Yr Ais
**SIOP Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY**, Rhiwbeina

# Pobol y Rhigwm

Y dasg yn rhifyn Gorffennaf/Awst (tasg 24) oedd llunio limrig yn cynnwys y llinell:

**Fe ddarfu yr haf unwaith eto**.

Daeth cannoedd o gynigion i law, felly dyma gyhoeddi'r goreuon yn unig. Dyma nhw, heb fod mewn trefn benodol, gyda sylwadau ar y diwedd.

Fe ddarfu yr haf unwaith eto,
Gadewch i ni joio'r holl liwio,
Gogoniant y dail
Bob blwyddyn heb ffael,
Cawn sioe fendigedig, heb fecso.

**Siencyn**

Fe ddarfu yr haf unwaith eto,
Cawn joio yr hydref a'r cwtsho,
Llai o oleuni,
Mwy o gwmpeini,
Ag amser i yfed prosecco!

**Siencyn**

Fe ddarfu yr haf unwaith eto,
Am dato yn awr mae'n rhaid cloddio,
Y tinau ar lan,
A'r coesau yn wan,
'O diar, pam na chawn ni risotto?'

**Roni o Grymych**

Fe ddarfu yr haf unwaith eto,
A chwrddes â lodes yn Tesco.
'Viagra?' medd hi,
'Wel, plîs te,' medd fi,
'O! Ho, ho, ho, ho, ho, ho, ho, ho!'

**Roni o Grymych**

'Fe ddarfu yr haf unwaith eto,'
Medd Leisa Tŷ Isa wrth Ianto.
'O na!' medde fe
Wrth slyrpian ei de,
'Mae'n well 'da fi ham a tomato!'

**Roni o Grymych**

Fe ddarfu yr haf unwaith eto,
A Medi a ddaeth gyda'i gyffro.
Ie, Cwpan y Byd
I'n swyno 'da'i hud,
A Chymru, mae'n siŵr, fydd yn concro.

**Roni o Grymych**

Fe ddarfu yr haf unwaith eto,
A'r flwyddyn yn prysur fynd heibio;
Dim amser cael hoe
I feddwl am ddoe
A chofio'r hynafiaid sy'n huno.

**Roni o Grymych**

Fe ddarfu yr haf unwaith eto,
A'n ffrindiau yn prysur fynd rhagddo.
Ond rhaid cadw ffydd –
Fe'u gwelwn ryw ddydd,
Ac yna ni fydd rhaid ffarwelio.

**Roni o Grymych**

Fe ddarfu yr haf unwaith eto,
A'r dyddiau di-hid aeth ar ffo.
A chwap wedi hyn
Daw'r gaea' a'i ffyn!
Ond daw haul 'to ar fryn – gobeithio!

**Mihangel**

Fe ddarfu yr haf unwaith eto,
Ond a odi pawb wedi joio?
Wel na, dybiwn i,
Waeth Cymry y'n ni,
A'r tywy' sy'n esgus i gwyno!

**Mihangel**

'Fe ddarfu yr haf unwaith eto,
Melania,' medd Don wrth noswylio.
'Mae'n amlwg taw dwli
'R holl ffys ar y teli,
A'r lol am y tywy' yn twymo!'

**Wali**

Fe ddarfu yr haf unwaith eto,
Ond ma rhai pethe'n stico'n y co'!
Myng-gu mewn bicini –
Tro cynta 'rs 'i geni (!)
A Dacú (dim ond het) yn torheulo!

**Wili Winci**

Tymhorau, a'u tywydd yn altro.
Y newid i'r hinsawdd i'w feio.
Stormydd eithafol,
Gwres annioddefol.
Fe ddarfu yr haf unwaith eto.

**Siani**

Fe ddarfu yr haf unwaith eto,
Holl irder Gorffennaf sy'n gwywo.
Ond, henoed! Clywch drwst
Y dorf yn Llanrwst:
Fis Awst cafodd Jim ei gadeirio.

**Pensiynwr**

Fe ddarfu yr haf unwaith eto.
Dim coron na chlod na chadeirio.
Y Dinesydd amdani
Lle mae y beirniadu,
'N wir i chi, mewn chwaethusach dwylo.

**Siomedig**

Prynais *shades* ond dim pwynt eu gwisgo.
Torheulo, Maes B? – gwell anghofio.
Ffarwel, dywydd braf!
Ffarwel haul, yr hen gnaf!
Fe ddarfu yr haf unwaith eto.

**Ii Haul**

Mae'n amlwg fod misoedd segur yr haf wedi rhoi cyfle i'r rhigymwyr fynd ati o ddifri. Does dim rhaid wrth odl gyrch yn y llinell olaf, ond mae'n helpu'r ergyd, os nad oes llawer gan y limrig i'w gynnig. Peth anodd gwneud pwynt difrifol hefyd, ar fesur sydd yn ffwrdd-â-hi ei fydr. Mae cynigion *Roni o Grymych* yn dda drwyddi draw, (yn enwedig limrig swreal 'Mae'n well 'da fi ham a tomato'!) ond **yr un a ddaeth â'r wên fwyaf i mi oedd limrig *Pensiynwr***, sy'n cyfeirio at fuddugoliaeth Jim Parc Nest yn yr Eisteddfod. Llwyddodd i gysylltu'r

llinell osod â digwyddiad cyfoes mewn ffordd annisgwyl... do, gwawriodd dydd y pensiynwr! Llongyfarchiadau iddo (ac i Jim!), a diolch i bawb a roes gynnig arni.

**Enillydd tasg rhif 24 yw**
**Dr Phil Ellis, Penylan**

Y dasg erbyn y tro nesaf (tasg 25) yw llunio **triban yn cynnwys enw unrhyw stryd yng Nghaerdydd**.

Pob hwyl i'r rhigymwyr, ac anfonwch eich cynigion erbyn 18 Medi 2019 at: db.james@ntlworld.com.
**Emyr Davies**

(ON Efallai y cewch ysbrydoliaeth o ddarllen Dyddiadur Deurodiwr Dwad!)

# Bryn Iolo



*Safle geni Iolo Morganwg*


Ym mhentref bychan Pennon tua milltir o Lancarfan ym Mro Morgannwg saif Bryn Iolo. Yma, dros ddwy ganrif a hanner yn ôl, ganed Iolo Morganwg (Edward Williams). Ar hyn o bryd, does dim byd i gofnodi'r ffaith nac i gysylltu'r lleoliad ag un o feibion pwysicaf a mwyaf creadigol ein cenedl.

Dros yr ugain mlynedd diwethaf, bu cynnydd sylweddol yn achosion olrhain hanes a thrafod arwyddocâd Iolo Morganwg, y Bardd Rhyddid. Wedi'r prosiect ymchwil wyth mlynedd o hyd, '*Iolo Morgannwg and the Romantic tradition in Wales*', o dan arweiniad yr Athro Geraint Jenkins a'r Athro Mary-Ann Constantine, gwelwyd cynnydd mwy fyth mewn diddordeb yn Iolo: erthyglau, dwy nofel, llyfr hanes newydd ac ym mis Awst 2019, awdl fuddugol T. James Jones (Jim Parc Nest) yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy, Llanrwst, yn seiliedig ar ran o hanes Iolo. Gwelsom hefyd ddadorchuddio plac glas gan y Prifardd Myrddin ap Dafydd yng Nghaerfyrddin yn cofnodi dau ganmlwyddiant ymuno Gorsedd Iolo â'r Eisteddfod.



Mae Cymdeithas Llancarfan yn lansio ymgais i godi plac glas ar wal y tŷ modern a adeiladwyd ar seiliau'r bwthyn gwreiddiol lle ganed Iolo.

I gydfynd â'r plac, y bwriad yw cynhyrchu taflen ddwyieithog yn amlinellu cysylltiad Iolo â'r ardal, awgrymiadau am ddarllen pellach a chyfieithiad o un o benillion Iolo i'r Saesneg. Mae




Cymdeithas Llancarfan yn ymdrechu i godi £600 i gwblhau'r gwaith a buasai'r gymdeithas yn hynod ddiolchgar am gyfraniadau o unrhyw faint. I wneud cyfraniad, ewch i:
https://www.justgiving.com/crowdfunding/llancarfan-468
neu yn uniogyrchol i Gymdeithas Llancarfan at '*Plac Iolo, The White Chapel, Llancarfan, Morgannwg, CF62 3AD'.*

***Cymdeithas Llancarfan***



# Terfysgoedd Hiliol Caerdydd 1919




*Llun o rifyn o'r Western Mail a gyhoeddwyd yn ystod y terfysg*

Ar 6 a 7 Mehefin 1919 gwelwyd terfysgoedd difrifol yn ardal y dociau yng Nghasnewydd. O fewn ychydig ddyddiau roeddent wedi lledu i ddociau Caerdydd a'r Barri. Terfysgoedd hiliol oeddynt, a'r rheini gyda'r gwaethaf yn hanes gwledydd Prydain. Ychydig o sylw, serch hynny, a roddwyd iddynt yn hanes Cymru.

Dechreuodd yr helynt yng Nghasnewydd gyda chyhuddiad yn erbyn dyn tywyll ei groen am ddifrïo merch wen. Ymgasglodd torf a chyn pen dim gwelwyd ymladd milain. Ymosodwyd ar gartrefi pobl croenliw y dref, anafwyd nifer ac arestiwyd dynion ar y ddwy ochr dan gyhuddiad o greu terfysg.



*Llun: Ernest T Bush*

Ar 11 Mehefin yn ardal Y Barri ymosododd tri dyn gwyn ar ddyn du o India'r Gorllewin. Wrth iddo geisio'i amddiffyn ei hun, tynnodd y dyn du gyllell o'i boced a lladd un o'r dynion. Aeth yr holl ardal yn wenfflam, taflwyd cerrig at ffenestri trigolion croenliw, ac am dair noson yn ddilynol gwelwyd terfysg torfol. Yng Nghaerdydd cafwyd digwyddiad hyll yn Stryd Custom, Trebiwt, yn ardal y dociau. Dechreuodd gwrthdaro rhwng dynion gwyn a dynion du a oedd yng nghwmi merched gwyn. Roedd hyn yn ddigon i ddod â thwr o bobl wyn a du wyneb yn wyneb â'i gilydd. Cynyddodd y gwrthdaro, ymosodwyd ar dai pobl croenliw a dechreuwyd tân yn un ohonyn nhw. Cafwyd digwyddiad difrifol eto mewn stryd arall yn yr ardal pan gafodd dyn gwyn ei ladd â llafn eillio yn ei wddf. Roedd y tensiwn yn ddwys iawn ar hyd nifer o strydoedd, tensiwn a barodd am sawl diwrnod yng ngwres tanbaid yr haf. Ymdrechodd yr heddlu i osgoi gwrthdaro pellach rhwng y ddwy ochr ac fe lwyddon nhw i sicrhau trefn. Arestiwyd nifer o ddynion a'u dedfrydu i garchar am gyfnodau amrywiol.

Roedd y terfysg yn gynnyrch cymysgedd o ffactorau, gan gynnwys tlodi affwysol, prinder tai fforddiadwy a phrinder swyddi yn y diwydiant llongau a'r fasnach lo, o ganlyniad i effeithiau'r rhyfel. Roedd yn gyfnod o ddadrithiad i'r dynion ifainc a ddychwelasent o faes y gad. Er gwaethaf addewidion Lloyd George y byddai diwedd y rhyfel yn arwain at fyd gwell, siom â'u hwynebai ac fe droes y siom hwnnw'n ddicter.

Y cyd-destun oedd yr economi ymerodraethol Brydeinig. Datblygasai Caerdydd yn borthladd byd-eang ond, yn sgîl hynny, tyfodd rhagfarn yn erbyn y gymuned aml-hiliol a oedd wedi ymargartrefu yno yn ystod y cyfnod cyn dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Doedd hi ddim yn gymuned fawr, dim mwy na rhyw 2% o boblogaeth y ddinas gyfan, ond lledai'r gwrthwynebiad ar draws y sbectrwm cymdeithasol. Mae sylw a wnaed gan un o'r diffynyddion yn yr helynt yng Nghasnewydd yn siarad cyfrolau dros agwedd y bobl wyn yn gyffredinol: *"Aethom allan i Ffrainc, a phan ddaethom yn ôl, roedd estroniaid wedi dwyn ein swyddi, ein busnesau a'n tai*". Ac meddai un arall,*" Mae pethau'n ddrwg iawn i'm gwraig a'm plant; dyma beth rydych chi'n ei gael am ymladd dros eich gwlad".* Y gwir plaen oedd fod tlodi a diweithdra yr un mor ddwys ymysg y gymuned groenliw; roedd nifer yn eu plith hwythau hefyd wedi aberthu eu bywydau yn y rhyfel. Ond diystyrid hynny ac roedd y wasg yn fwy na pharod i borthi'r rhagfarnau. Fe barodd y creithiau am flynyddoedd lawer wedi hyn. A hithau'n gyfnod Brexit tybed faint o newid a fu yn ystod y can mlynedd a aeth heibio?

*Hefin Mathias*

## Y Dinesydd yn Florida

Fyddwch chi'n mynd â chopi o'r Dinesydd gyda chi ar wyliau? Dyna wnaeth Sheridan Morgan fel clywson ni ganddo yn y rhifyn diwethaf. Mae'r dystiolaeth yn y llun...



# Cwmni’r Dysgwyr



## Gwilym Dafydd

*“Fyddwch chi’n mynd â chopi o’r Dinesydd gyda chi ar wyliau? “*

### Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019

Yn gyntaf hoffwn i longyfarch Fiona Collins o Garrog, Sir Ddinbych, am ennill cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn 2019. Yn ail hoffwn i ddiolch i'r Eisteddfod am waith caled yn wyneb heriau mawr oherwydd tywydd ofnadwy ac am Eisteddfod ardderchog.

Wel, am brofiad! Dyma oedd fy ail Eisteddfod ac fel yr Eisteddfod y llynedd yng Nghaerdydd roedd yn fythgofiadwy.

Cyrhaeddais i nos Wener cyn i'r Eisteddfod ddechrau ac ron i wedi bwcio i aros ar faes gwersylla Cymdeithas yr Iaith. Ces i lifft o Gaerdydd gan Chris Griffiths, Swyddog Maes Gwent a Morgannwg, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Cerddais i i'r Maes fore Sadwrn i wneud shifft ar stondin Cymdeithas oedd yn lot o hwyl ac ar ôl gorffen treuliais i weddill y dydd yn mynd o gwmpas y stondinau eraill. Cwrddais i â Gwilym ac Eirian Dafydd ym mhabell Cytûn!

Gwnes i'r un peth ddydd Sul ac roedd yn hyfryd cwrdd â chwpl o Gernyw ar stondin Cymdeithas oedd yn rhugl yn y Gernyweg. Roedd yn wych sgwrsio gyda nhw – ni'n siarad Cymraeg a hwythau'n siarad Cernyweg. Ro'n i'n synnu at gymaint ron ni'n gallu deall ein gilydd! Ond cyn i fi adael y maes gwersylla am y Maes yn y bore, es i i babell Y Gorlan. Criw o Gristnogion ifanc yw'r Gorlan sy'n darparu te, coffi a thost am ddim ac uwd a grawnfwyd rhad i wersyllwyr yn ogystal â lle i gymdeithasu a chysgodi rhag y glaw.



***Aled a Matt***

Don i ddim yn gwybod llawer amdanyn nhw a don i ddim yn gwybod y bydden nhw yno a ches i siom ar yr ochr orau pan es i i'w pabell a gweld Gwilym Tudur, mab Alun Tudur, Gweinidog Eglwys Ebeneser, yno! Cadeirydd Y Gorlan yw Gwilym ac roedd yn wych dysgu mwy amdanyn nhw a chwrdd â'r gwirfoddolwyr, gan gynnwys criw o Gristnogion ifanc o America.

Wedyn, y diwrnod mawr. Y diwrnod ron i wedi bod yn aros amdano fe ers mis Awst y llynedd. Mae'n anodd esbonio sut brofiad oedd cael fy urddo i'r Orsedd fore Llun ond mae'n ddigon i ddweud ei fod yn brofiad bythgofiadwy! Braint o'r mwyaf oedd hi a braint arall oedd cael fy nhywys i'r Cylch yn ystod y seremoni gan hen ffrind, y Parchedig Aled Edwards. Math Aberplym yw fy enw yn yr Orsedd. Cymerais i ran yn Seremoni'r Coroni yn y Pafiliwn yn y prynhawn fel aelod o'r Orsedd ar y llwyfan. Ron i'n gobeithio cuddio yn y cefn ond ces i fy rhoi yn yr ail reng reit tu ôl i'r Gadair a'r Archdderwydd newydd Myrddin ap Dafydd! Unwaith eto mae'n anodd esbonio sut brofiad oedd cymryd rhan yn y Seremoni ac unwaith eto roedd yn brofiad bythgofiadwy.

Des i yn ôl i Gaerdydd nos Fawrth. Ces i lifft gan un oedd yn gwirfoddoli gyda'r Gorlan. Roedd llawer o law a gwynt wrth i fi wersylla ond collais i'r tywydd gwaetha, diolch byth! Nawr dw i'n edrych ymlaen at Eisteddfod 2020 yn Nhregaron a dw i'n bwriadu cymryd rhan yn Seremoni’r Cadeirio. Hefyd hoffwn i gymryd rhan yn Seremoni Urddo Gorsedd y Beirdd (neu i ddefnyddio'r enw newydd, Gorsedd Cymru sydd wedi achosi cryn wrthwynebiad gan rai) pan fydd Fiona Collins, Dysgwr y Flwyddyn 2019 yn cael ei hurddo!

*Matt Spry*

### Gair o’r Eisteddfod gan Janet Tabor

Es i i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst ar y dydd Sadwrn olaf. Er y rhagolygon tywydd ron i’n benderfynol i fynd. Gadawon ni Gaerdydd yn gynnar achos mae'r daith yn eitha hir. Ron ni ar y ffordd i'r gogledd, ac ron i'n gyffrous iawn. Cyrhaeddon ni tua deg o'r gloch, ac roedd y tywydd yn ofnadwy. Diolch byth am fy Wellingtons!

Er gwaethaf y tywydd, ron ni'n gallu mwynhau gwrando ar gystadleuaeth y corau meibion. Roedd hi'n ardderchog. Hefyd ymwelais i â Shwd Mae Llanrwst, ble roedd cyfle i siarad â dysgwyr eraill. Cerddon ni o gwmpas y stondinau, ac wrth gwrs, bwyton ni sglodion yn y glaw! Roedd e'n brofiad gwych.

Yn ychwanegol, ron i'n gallu treulio dydd Sul ym Metws y Coed. Don ni ddim wedi bod yno o'r blaen. Mae'n lle pert iawn, a dwi'n falch i adrodd daeth yr haul allan, ond ddim yn hir!

# Ysgol Plasmawr

**Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy**

Yn dilyn llwyddiant yr ysgol yn Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro, braf oedd gweld cymaint o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst eleni. Roedd hi'n Eisteddfod i'w chofio am sawl reswm, yn enwedig i'r criw a fuodd yn cystadlu. Hoffai'r ysgol longyfarch y canlynol ar eu llwyddiant yn y cystadlaethau canlynol :

Llefaru Unigol 12 ac o dan 16 oed –
Iestyn Gwyn Jones (1af)
Llefaru Unigol 12 ac o dan 16 oed –
Nansi Rhys Adams (2il)
Monolog 12 ac o dan 16 oed –
Lili Mohammad (3ydd)
Unawd i Ferched 12 ac o dan 16 –
Lili Mohammad (2il)
Dawns Greadigol / Gyfoes Unigol –
Elin John (1af)
Dawns Greadigol / Gyfoes Unigol –
Caitlin Boyle (3ydd)
Dawns Unigol Disgo, Hip Hop neu Stryd –
Caitlin Boyle (3ydd)
Dawns Aml Gyfrwng i bâr neu driawd mewn unrhyw arddull – Caitlin ac Elin (2il)
Dawns Disgo, Hip Hop neu Stryd i bâr neu driawd –
Caitlin ac Elin (1af)
Dawns Stepio Unigol i Fechgyn o dan 18 oed –
Morus Jones (2il)
Deuawd, Triawd neu Bedwarawd Stepio –
Morus a Daniel Jones (2il)
Deialog (2-4 mewn nifer) –
Manon Roberts a Lleucu (3ydd)

Hoffai'r ysgol hefyd longyfarch y disgyblion hynny a oedd yn cystadlu gydag Adran Bro Tâf a Dawnswyr Nantgarw.

Yn ogystal â chystadlaethau llwyfan, hyfryd gweld cymaint o ddisgyblion yn mwynhau'r arlwy o weithgareddau a oedd ar y maes bob dydd a rhai hefyd yn gweithio ar y maes yn ystod yr wythnos. Roedd hi'n hyfryd hefyd i weld cyn-fand yr ysgol, Wigwam, yn perfformio ar wahanol lwyfannau yn ystod yr wythnos, a dwi'n siŵr bydd cyfle iddynt berfformio eto ar lwyfan Maes B y flwyddyn nesaf.

Ymlaen i Dregaron 2020!

**Canlyniadau Safon Uwch 2019**

Llongyfarchiadau mawr i holl fyfyrwyr Blwyddyn 13 ar eu llwyddiant arbennig yn eu harholiadau a'u cymwysterau Safon Uwch, BTEC a'r Fagloriaeth eleni. Mae'r canlyniadau rhagorol yn deyrnged i'w hymroddiad a'u gwaith diwyd dros y ddwy flynedd diwethaf.

Mae'r mwyafrif helaeth o'r myfyrwyr a wnaeth gais am gyrsiau addysg uwch wedi eu derbyn i'r Brifysgol o'u dewis, a chanran uchel o rheiny yn Brifysgolion Grŵp Russell.

Mae 22.2% o'r flwyddyn wedi ennill 3 neu fwy cymhwyster gradd A* neu A.

Mae 70.0% o'r flwyddyn wedi ennill 3 neu fwy cymhwyster gradd A* - C.

Llongyfarchiadau i Carys Bill, Elin Preest a Gwen Williams ar ennill y graddau angenrheidiol i astudio ym mhrifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt.

Dyma'r canlyniadau Safon Uwch, yn ôl y graddau a dderbyniwyd:
Canran y graddau A* - A: 38.1%
Canran y graddau A* - C: 85.2%
Canran y graddau A* - E: 100%

**Canlyniadau TGAU 2019**

Llongyfarchiadau i ddisgyblion Blwyddyn 11, hefyd, sydd wedi perfformio'n arbennig o dda yn eu harholiadau TGAU a BTEC eleni, er iddi fod yn flwyddyn heriol ar sawl cyfrif.

Mae'r disgyblion canlynol wedi perfformio yn eithriadol ac wedi ennill 9 neu fwy gradd A*: Millie-Mae Adams, Beca Davies, Sophie Davies, Beca Evans, Greta Evans, Manon Hammond, Daniel Howes, Ffion Humphreys, Megan Jones, Ioan Llywelyn, Heledd Powell, Rhianydd Preest, Manon Roberts a Ffion Thompson.

Canran y graddau A* - A: 30%
Canran y graddau A* - B: 60%
Canran y graddau A* - C: 81%

Da iawn bawb, a diolch yn fawr i'r holl staff sydd wedi gweithio'n ddiflino i baratoi, cynllunio, addysgu, mentora ac asesu'r myfyrwyr trwy eu cyrsiau Safon Uwch, BTEC a'r Fagloriaeth ac sydd wedi gweithio'n ddiflino i roi pob cyfle i'r disgyblion lwyddo yn eu harholiadau TGAU a BTEC, gan gyfrannu'n aruthrol at lwyddiant y myfyrwyr.






# Ysgol Gwaelod –Y-Garth

Pob lwc i Flwyddyn 6 Ysgol Gwaelod-Y-Garth yn eu hysgolion uwchradd. Diolch yn fawr am fod mor eiddgar, brwdfrydig, awyddus a chwrtais ymhob agwedd o fywyd Ysgol Gwaelod-Y-Garth.

Fe fydd Mr Eirian Williams yn ymddeol ar ddiwedd y tymor ar ôl 29 mlynedd fel dirprwy yn yr ysgol. Hoffwn ddiolch yn fawr iddo, ar ran cymuned Ysgol Gwaelod-Y-Garth, am ei sefydlogrwydd cadarn, ei arweiniad trylwyr a'i gefnogaeth gyson.

Mae Mrs Sarah Jones hefyd yn ein gadael i fod yn Bennaeth Mewn Gofal yn Ysgol Bro Eirwg. Hoffwn ddiolch yn fawr iddi am fod yn arweinydd ysgogol, brwdfrydig ac egnïol ac yn ffrind i holl gymuned yr ysgol.

Mae Mr Williams a Mrs Jones wedi llwyddo i sbarduno, ysbrydoli ac ysgogi cannoedd o blant Gwaelod dros y blynyddoedd a dymunwn yn dda iddynt.

Hefyd mae aelodau o'n staff cynorthwyol yn symud ymlaen i gychwyn penodau newydd yn eu bywydau. Fe fydd Mrs Ann Hughes yn ymddeol, a Mrs Catrin Hobbs a Mrs Marie Harding yn symud ymlaen i ysgolion eraill. Hoffwn ddiolch yn fawr iddyn nhw am eu cefnogaeth frwd ac am eu cyfraniad positif a gweithgar ar lawr a thu allan i'r dosbarth.

Yn ystod Tafwyl cymerodd yr ysgol ran mewn gorymdaith a oedd yn dathlu 70 mlynedd o addysg Gymraeg yng Nghaerdydd. Diolch yn fawr i'r rhai ohonoch chi a orymdeithiodd gyda ni - roedd yn ddigwyddiad cyffrous, ysgogol a orffenndd gyda rhai o blant Gwaelod yn canu cân arbennig a ysgrifennodd Blwyddyn 5 a 6 clwstwr Plasmawr gyda Mei Gwynedd. Gwych! Diolch yn fawr i blant y Derbyn, Bl 1 a 2 am berfformio mor arbennig yn Tafwyl - roedd yn bleser eich gweld yn perffomio gyda gwên ar wyneb bob un ohonoch chi.



Mr Williams



Mrs Jones



Mrs Hughes, Mrs Hobbs a Mrs Harding

## Darllen Dros Gymru

Llongyfarchiadau i ddisgyblion Bl. 3 a 4 Ysgol y Wern, Caerdydd a disgyblion Bl. 5 a 6 Ysgol Sant Baruc, Bro Morgannwg ar ddod yn drydedd yn y gystadleuaeth uchod a drefnwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru ar gyfer plant oedran cynradd.



# Ail Goron i Martin

**Mae bardd o Gaerdydd wedi ennill ei ail Goron – yn yr un Eisteddfod.**

Martin Huws enillodd y Goron yn Eisteddfod Rhys Thomas James, Llanbedr Pont Steffan. Enillodd y Goron yn yr un Eisteddfod yn 2016. Y gofynion eleni oedd casgliad o gerddi rhydd heb fod yn fwy na 100 o linellau ar y testun Cusan neu Cusanau.

Dywedodd y beirniad, Tudur Dylan Jones, fod naw wedi cystadlu. "Yn wyneb y testun, fe fyddai rhywun yn disgwyl cerddi tyner ond mae'r bardd hwn yn mynd â ni i gyfeiriad tra gwahanol, yn procio'r annisgwyl, wrth sôn am filwr sy'n mynd i ryfel ac yn diodde o PTSD," meddai yn Ysgol Bro Pedr.

"Yn y cerddi mae'r bardd yn cyferbynnu erchylltra rhyfel â chusanau ei gariad. Mi fyddai'n hawdd mynd dros ben llestri ond mae'r bardd buddugol yn gwybod sut a phryd i ymatal. Mae'n cyfeirio at y clefyd yn delynegol ac mae ei gynildeb yn eithriadol."

"Milwr bychan sy'n llwyr deilwng o'r Goron eleni."

Martin oedd un o ohebwyr cyntaf *Golwg* pan sefydlwyd y cylchgrawn yn 1988 cyn gweithio i'r *Western Mail*, *Y Byd ar Bedwar*, *Taro Naw* a *Cymru'r Byd*.

Aeth i Ysgol Uwchradd Cathays yng Nghaerdydd ac mae ei ddyled yn fawr, meddai, i'r athro Cymraeg, Elvet Thomas, a'r athro Ffrangeg, Ted Poole. Mae'n ennill Coron a siec sy werth £200.

# Cylch Meithrin Dinas Powys

Mae hi wedi bod yn adeg brysur i Gylch Meithrin Dinas Powys yn ddiweddar - newidiadau mawr fydd yn trawsnewid ein cylch bach. Diolch i waith caled ein harweinydd presennol Sian Hazlewood a dycnwch a chefnogaeth Lowri Bell sy'n swyddog gyda'r Mudiad Meithrin - a heb anghofio'r pwyllgor, gan ein bod nawr yn gorfrestredig gydag Arolygaeth Gofal Cymru. Rydym hefyd yn elusen gofrestredig ac yn falch iawn o'n llwyddiant gan edrych ymlaen i ddyfodol cyffrous y Cylch fel safle gofal dydd sesiynol cofrestredig.

Oherwydd ein statws newydd, gallwn gynnig mwy o sesiynau a mwy o blant yn gallu dod i fwynhau chwarae a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd pob sesiwn yn hirach hefyd - yr oriau fydd 9.15 - 12.30 pob bore'r wythnos yn y lleoliad arferol, sef Neuadd Kynance, Eglwys Fethodistaidd Dinas Powys. Mae lle i 12 o blant ym mhob sesiwn.

Mae sesiynau dydd Llun, Mawrth a Mercher yn eithaf prysur, ond nawr gallwn gynnig lle ar ddydd Iau a dydd Gwener. Erbyn bydd y Cylch yn ail agor ar 9fed Medi, bydd arweinydd newydd gyda ni, sef Lauren Davies - merch o Ddinas Powys a fu'n ddisgybl yn ysgolion Pen y Garth a Bro Morgannwg. Bydd Catrin Kemp yn aros gyda ni fel is-arweinydd am dridiau a Carys Gronow am ddau ddiwrnod gyda Jo McKay yn aros fel cynorthwy-ydd drwy'r wythnos.

Os gwyddoch chi am eraill a fyddai â diddordeb mewn danfon plant/wyrion i'r Cych, plîs danfonwch y neges hon ymlaen a lledaenu'r wybodaeth amdanon ni. Am ragor o wybodaeth ac i gofrestru'ch plentyn cysylltwch gyda ni drwy e-bost - cylchmeithrindinaspowys@outlook.com neu gydag Elinor Elias Jones ar 07967 188347

## Cylch Meithrin Rhiwbeina yn 60 oed eleni – 1959 i 2019

Nôl yn 1959 roedd Rhiwbeina yn yr hen Sir Forgannwg a ddaeth hi ddim yn rhan o Ddinas Caerdydd tan yr ad-drefnu llywodraeth leol yn saithdegau'r ganrif ddiwethaf. Felly, os oedd rhieni Rhiwbeina am addysg Gymraeg i'w plant roedd rhaid gwneud trefniadau ar eu costau eu hunain i gludo'r plant i Ysgol Gymraeg Bryntaf yn y ddinas.

Yn 1958 dychwelodd Gwilym Roberts i fyw yn Rhiwbeina lle cafodd ei fagu, i ddysgu Cymraeg yn un o ysgolion Saesneg ei chyfrwng yng Nghaerdydd. Teimlodd i'r byw na chafodd addysg Gymraeg ac felly penderfynodd sefydlu Cylch Meithrin Cymraeg yn y pentre ac yna pwyso ar Gyngor Morgannwg i ystyried sefydlu ysgol Gymraeg yn Rhiwbeina i dderbyn plant o'r cylch yn lle eu bod yn gorfod mynd dros y ffin i Gaerdydd.

Trafodwyd y syniad gyda Gwyn Daniel, prifathro Ysgol Gwaelod-Y-Garth a oedd hefyd yn ysgrifennydd UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru) ac aeth y ddau ohonynt o gwmpas yr ardal i chwilio am rieni fyddai'n debyg o gefnogi'r syniad.

O ganlyniad i'r cenhadu cynhaliwyd cyfarfod yn y "Wendy Hut" yn Lôn Fach, Rhiwbeina i wyntyllu'r syniad a hynny ar nos Lun Medi 21ain 1959. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Gwyn Daniel a daeth 14 o bobl ynghyd. Anerchwyd y cyfarfod gan Mrs Nesta Rees, arweinydd Cylch Meithrin Caerdydd ac yna cynigiwyd i symud ymlaen i sefydlu cylch tebyg yn Rhiwbeina. Gofynnwyd i Gwilym Roberts chwilio am le addas i gynnal y cylch a chytunwyd i gynnal cyfarfod arall ar nos Lun Hydref 12fed i ethol y swyddogion a phwyllgor.

Daeth 18 o bobl i'r cyfarfod hwn ac etholwyd Iwan Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor, Gwilym Roberts yn Ysgrifennydd ac Emyr Gwyn Jones yn Drysorydd. Cyhoeddodd Gwilym fod ystafell ar gael yn y Neuadd Goffa am bris rhesymol a gwirfoddololdd Mrs Bethan Roberts a Mrs Sally Hughes i arwain y cylch a hynny ar un bore'r wythnos i ddechrau. Penderfynwyd wedyn i agor y cylch ar fore Gwener Hydref 30ain. Disgwyliwyd tua dwsin o blant ar y bore cyntaf ond er mawr lawenydd i bawb ymddangosodd 21 o blant!

Datblygodd y cylch dros y blynyddoedd a bellach mae ar agor bob bore'r wythnos ac yn cyfarfod yn festri Capel Bethel ym Maes y Deri, ac yn dal mor boblogaidd ag erioed hefo rhestr aros! Mae'r plant, ar ôl mynychu'r cylch, yn symud ymlaen i Ysgol Gymraeg y Wern yn Llanisien.

Yn anffodus ni wireddwyd breuddwyd Gwilym Roberts i weld Ysgol Gymraeg yn ei filltir sgwâr yn Rhiwbeina, er am beth amser cafwyd uned Gymraeg yn Ysgol Heol Llanisien Fach cyn i Riwbeina ddod yn rhan o Gaerdydd. Yna, wrth ddod yn rhan o Gaerdydd, caëwyd yr uned a throsglwyddwyd y disgyblion i ymuno â disgyblion Bryntaf yn Ysgol Viriamu Jones, Mynachdy.



Pob llwyddiant eto i'r Cylch a Phen-blwydd Hapus a hwyl ar y dathlu – Pen-blwydd Hapus hefyd i addysg Gymraeg yng Nghaerdydd ers 70 mlynedd, a ddechreuodd gydag uned o 18 o ddisgyblion. Erbyn hyn mae miloedd o blant y ddinas yn derbyn eu haddysg drwy'r Gymraeg diolch i waith yr arloeswyr nôl yn y ganrif ddiwethaf.

# MENTER CAERDYDD
## TYMOR YR HYDREF 2019


Blwyddyn Academaidd Newydd a thymor newydd o weithgareddau Menter Caerdydd!

Wedi Tafwyl lwyddiannus arall, a phrysurdeb Chynlluniau Gofal a Sesiynau Bwrlwm dros yr Haf; mae mis Medi wedi'n cyrraedd! Dechrau blwyddyn newydd yn yr ysgolion, a dechrau tymor newydd i Glybiau a gweithgareddau Menter Caerdydd!

Bydd rhaglen o weithgareddau o fabanod i blant hyd at 100 i'ch cadw chi i gyd yn ddifyr dros dymor yr Hydref. Bydd yr hen ffefrynnau fel y Gerddorfa Ukulele, Clwb Dawns a Drama, ac Amser Stori yn ail-ddechrau canol Medi, ynghyd â gweithgareddau newydd a chyffrous eraill i'r teulu oll (gweler y lluniau).

Beth amdani? Mae manylion pellach am yr holl weithgareddau, a modd i chi gofrestru ar-lein trwy ein gwefan: mentercaerdydd.cymru. Llefydd ar sail y cyntaf i'r felin, felly peidiwch ag oedi!

*Oes gennych chi weithgaredd neu glwb yr hoffech chi weld yn datblygu yn eich hardal chi? Rhannwch eich syniadau gyda ni : post@mentercaerdydd.cymru.




## Ysgoloriaeth Colin Jones i Gantorion Ifanc

Mae'n fwriad gan Gorws Colin Jones ddefnyddio'r arian sy'n weddill yng nghronfa'r côr i sefydlu 'Ysgoloriaeth' er cof am Colin. I gydnabod ei gyfraniad i gerddoriaeth yng Nghymru fel arweinydd corau meibion, hyfforddwr llais a chyfeilydd. Dymuniad Colin ei hunan oedd i'r gystadleuaeth am yr ysgoloriaeth hon gael ei chynnal yn Eisteddfod Flynyddol Llanrwst.

Os bydd y cantorion a gafodd eu hyfforddi, yn unawdwyr neu gyn-aelodau'r corau y bu'n eu harwain, yn dymuno cyfrannu i gronfa'r ysgoloriaeth hon, yna dylid anfon yr arian at drysorydd y Corws: Reg Jones, Penymaes, 5 James Park, Dyserth, Sir Ddinbych, LL18 6AG a'r sieciau'n daladwy i 'Colin Jones Singers'. Bydd y Gronfa'n cau ar Hydref 31.

## Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau i Christopher, mab Eirian ac Ian Kelly o Rhiwbeina, ar ennill ei Ddoethuriaeth ym Mhrifysgol Rhydychen. Cynhaliwyd y seremoni graddio yn Theatr y Sheldonian, Rhydychen ar ddechrau mis Awst. Maes ymchwil Christopher yw peirianneg biofeddygol ac ers dwy flynedd bellach, mae'n Gymrawd Ymchwil yn Adran Meddygaeth Prifysgol Leeds. Mae'n gyn-ddisgybl o Ysgolion Y Wern a Glantaf. Llongyfarchiadau gwresog iddo.

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Da oedd gweld a theimlo bwrlwm Pentref Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn y Genedlaethol. Yn ogystal â nifer o weithgareddau rhyngweithiol bu'r Sioe Wyddoniaeth Wych ddyddiol, Experimentrics a'r sesiynau yn y Planetariwm yn denu niferoedd.

Cafwyd safon uchel iawn yn y darlithoedd ar y Maes yn Cymdeithasau 2. Cefais gyfle i fod yn bresennol mewn tair ohonynt: Deri Tomos - Dŵr a Strwythurau Bywyd; Eleri Pryse – Ar Ymyl Y Gofod; Arwyn Tomos Jones – Siwrne Faith i Ganol y Gell, o Gynffon Penbwl i Galon Canser. Yn y drydedd, yn dilyn cyflwyniad meistraidd ar natur cell a'r broses apoptosis, soniodd Arwyn yn agored a dewr iawn am ei daith bersonol o ymateb i ddiagnosis yn 2012 o ganser ei ymennydd, yn benodol y profiad rhyfeddol o fedru syllu, gyda chyd-weithrediad ei feddygon, trwy feicrosgop ar ddarn o'i ymennydd ei hun. Derbyniodd gymeradwyaeth wresog iawn.

Cafwyd sesiwn ddifyr ar ddydd Mawrth pan heriwyd pedwar gwyddonydd i ymateb i'r cwestiwn: Beth yw'r datblygiad gwyddonol pwysicaf yn y ganrif ddiwethaf? Y pedwar dewis oedd: 1. Y chwyldro mewn meddygaeth, dan ddylanwad Archie Cochrane, o seilio triniaeth ar dystiolaeth data; 2. Y transistor; 3. Y Wê; 4. Darganfod twll yn yr haenen Osôn. Cadeiriwyd y sesiwn gan Deri Tomos yn ei arddull egnïol arferol. Cyn i'r pedwar lladmerydd siarad, gofynnwyd i'r gynulleidfa fwrw pleidlais. Yn dilyn y cyflwyniadau pleidleisiwyd eto, gan ddangos ychydig o newid a'r mwyafrif yn newid meddwl ac ochri gyda'r twll yn yr haenen Osôn. Oes neges yma?

Gwobrwywyd dau draethawd gwyddonol, (a) defnyddio bôn-gelloedd i drin Clefyd Huntington a Chlefyd Parkinson, (b) Y Fran: Athrylith neu hen dderyn castiog. Darllen difyr.

Bydd ein tymor newydd yn dechrau ar Nos Lun, Medi 16 am 19.30 yn Ystafell G77, Prif Adeilad, Prifysgol Caerdydd. Mynediad trwy faes parcio Park Place. Croeso i bawb.

# Cwlwm Busnes Caerdydd

## Penodi Cyd-Gadeiryddion newydd Cwlwm Busnes Caerdydd

Elin Llŷr ac Owen John sydd wedi eu penodi yn gyd-gadeiryddion newydd Cwlwm Busnes Caerdydd. Bydd y ddau yn olynu'r Cadeirydd presennol Osian Bowyer ym Medi 2019.

Cymdeithas o bobl fusnes Caerdydd a'r De Ddwyrain yw Cwlwm Busnes Caerdydd, gyda'r nôd o godi proffil y Gymraeg ym myd busnes a rhoi cyfle i Gymry Cymraeg i rwydweithio a chefnogi eu gilydd. Maent yn trefnu nifer o ddigwyddiadau rhwydweithio, ac yn cynnal Cinio Blynyddol sydd bellach yn uchafbwynt yn y calendr.

Mae Elin Llŷr yn Gyfarwyddwr Cyfrif yng nghwmni Materion Cyhoeddus Deryn Consulting, wedi iddi ymuno â'r tîm yn 2016. Cyn hynny, buodd yn gweithio i'r Aelodau Cynulliad Dafydd Elis-Thomas AC a Helen Mary Jones AC dros gyfnod o 7 mlynedd. Mae Elin yn arbenigo yn y meysydd digwyddiadau, cyfathrebu ac ymgysylltu. Mae hi'n wreiddiol o Gricieth ond wedi ymgartrefu yn ardal Grangetown ers graddio o Brifysgol Caerdydd yn 2007.


*Elin ac Owen*

Mae Owen John yn bartner a chyfreithiwr yng nghwmni Darwin Gray yng Nghaerdydd. Yn wreiddiol o Gaerdydd, mae Owen yn arbenigo mewn cyfraith cyflogaeth ac yn cynghori cyflogwyr a chyflogeion ar bob agwedd o'r gyfraith yn y gwaith. Mae'n gweithredu ar ran nifer o gyflogwyr a busnesau mwyaf adnabyddus Cymru.

Meddai Elin Llŷr,
"Ers ymuno â'r pwyllgor gweithgar ym mis Mawrth 2018, mae proffil ac aelodaeth y Cwlwm wedi mynd o nerth i nerth, ac mae ein presenoldeb ar sianelau cyfryngau cymdeithasol wedi cynyddu yn sylweddol. Yn ddi-os, mae gan Cwlwm Busnes lawer i'w gynnig i'r gymdeithas fusnes yng Nghaerdydd - ac rydym yn gobeithio ein bod yn cynnig cyfleoedd i aelodau rwydweithio a rhannu eu sgiliau ac arbenigedd mewn awyrgylch hwyliog a chyfeillgar.

Ychwanegodd Owen John,
"Mae gennym gynlluniau cyffroes ar y gweill ar gyfer 2019-20 - rydym yn bwriadu lansio gwefan newydd o fewn y misoedd nesaf a byddwn yn cyhoeddi rhagor o fanylion am ddigwyddiadau rhwydweithio yr Hydref a'r Nadolig yn fuan. Gyda mwy a mwy o gyflogwyr yn gwerthfawrogi a chroesawu'r gallu i siarad Cymraeg yn y gweithle, mae'n bwysicach nag erioed i gynnig cefnogaeth a'r cyfle i rwydweithio drwy gyfrwng y Gymraeg."

Am ragor o fanylion, cysylltwch â Elin Llyr ar 07762504016 / elin.llyr@deryn.co.uk neu Owen John ar 07786640792 / ojohn@darwingray.com

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Wrth i dymor yr Aelwyd ddirwyn i ben dros yr haf, trefnwyd Te Prynhawn Mefus i'r aelodau yn ôl yr arfer blynyddol bellach. Y gŵr gwadd oedd y canwr a'r ysgogydd crefyddol, Delwyn Sion. Cofir amdano fel lleisydd gyda'r grŵp Hergest a'r caneuon hyfryd yn atseinio dros y blynyddoedd. Bu'n olrhain ei hanes yn fachgen yn ardal Aberdâr, mewn teulu o lowyr. Dysgodd Dudley Newberry gordiau'r gitâr iddo'n gynnar iawn a phrynodd ei gitar gyntaf oddiwrth ei frawd am £5. Soniodd yn annwyl iawn am ei gyfnod yn Ysgol Rhydfelen, a dysgu Ffrangeg gyda'i athrawes Gwyneth Jeffreys (oedd yn bresennol yn y cyfarfod). Bu'r cerddor enwog Lily Richards yn ddylanwad mawr arno yn ei hyfforddiant cerddorol. Un o'i gefndryd agos yw Max Boyce. Enwodd amryw o gymeriadau annwyl lliwgar a fu yn ddylanwad arno wrth ysgrifennu llawer o'r caneuon a gyflwynodd – (e.e. am fois y mwgwd a'r mwffler) – a'i ganu'n rhoi pleser mawr i gynulleidfa werthfawrogol yr Aelwyd. Cyflwynodd hwiangerdd newydd – er cof am dad Max, yn llawn atgofion ac angerdd, gan orffen a chân enwog Hergest - "*Dyddiau da dros ben*". Prynhawn i'w gofio gan ŵr hynaws iawn!

Bydd yr Aelwyd yn ail gychwyn tymor newydd ar ddydd Mercher, Medi 4ydd am 1.30 y.p. (noder yr amser newydd) yn Festri Eglwys Minny Street, Y Waun Ddyfal. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd (Ffôn – 029 20254679).



***Delwyn Sion gyda Gwyneth Jeffreys***

# Cymdeithas Edward Llwyd

Tydi hi'n braf pan mae'r dyddiau'n ymestyn ond mae pob peth da yn dod i ben ac erbyn hyn mae'r hydref ar y trothwy ac yn fuan mi fydd y dail yn newid lliw. Mae gan bob tymor ei rinwedd ac i mi y gwanwyn a'r hydref yw'r gorau o bell ffordd. Yr hydref sydd ar y ffordd rŵan a dyma'r amser i fywyd gwyllt lenwi eu hunain cyn gaeafgysgu. Mae'r eiddew yn bwysig i lawer o bryfed; planhigyn hwyr yw'r eiddew yn aros tan fis Medi i flodeuo a'r ffrwyth ar gael o fis Tachwedd tan Ionawr. Bydd anifeiliaid yn chwilio am gnau hefyd ac yn brysur yn cuddio popeth mewn lle diogel.



Bydden ni'n gweld, dros nos, ffwng yn dod i'r golwg, rhai crwn a phlaen, rhai lliwgar a rhai gosgeiddig. Mae gan bob peth ei bwrpas. Mae'r hydref yn amser cyffrous allan yn y wlad - cofiwch fynd â'ch camera. Os am gerdded mewn cwmni beth am ymuno â ni. Mae ein rhaglen newydd ar y we, efallai bydden ni'n cerdded yn agos at eich ardal.

Mae manylion llawn o'n rhaglen ar ein gwefan http://cymdeithasedwardllwyd.cymru/gweithgareddaur-de/



# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## TABERNACL, YR AIS

**Llywydd Mudiad y Chwiorydd Undeb Bedyddwyr Cymru**

Gwahoddwyd Cymanfa Dwyrain Morgannwg i ethol is-lywydd i'r Mudiad am y flwyddyn nesaf a Ruth Davies oedd ein dewis. Braf cael dweud ei bod wedi derbyn ein cais a diolchwn iddi am ei pharodrwydd i wasanaethu.

**O Eden i Baradwys.**

Gwerthwyd nifer o gopïau o'r gyfrol hon gan y Parch. Hugh Matthews eisoes a bu derbyniad da ohoni yn barod. Dyma oedd yr hyn a gyflwynodd Hugh llynedd fel myfyrdodau'r flwyddyn.

**Oedfa Ardal.**

Trefnwyd oedfa ardal arall a'r tro hwn cyfeillion yr eglwys sy'n byw yn ardal Treganna, Pontcanna a Pharc Fictoria oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth. Eu thema oedd bywyd a gweinidogaeth Timothy Richard.

**Y Cyfryngau.**

Bu Wil Morgan yn un o gyfrannwyr cyson y cyfryngau dros y degawdau, ac yn y cyfnod diweddar bu'n llais hwyliog ar Radio Cymru yn hwyr ar nos Sadwrn. Llenwodd y ddyletswydd yn effeithiol a dymunwn yn dda iddo wrth ymddeol.

**Oedfa'r Ifanc a Barbeciw'r Haf.**

Roedd yn hyfryd cael bod yn rhan o'r oedfa dan ofal Dosbarth Beiblaidd yr Ifanc sy'n cyfarfod bob pythefnos o dan arweiniad Rhodri ab Owen a Marc Jon. Maent yn amlwg yn cael blas ar y gwaith ac yn cymryd eu ffydd o ddifrif. Cyflwynwyd myfyrdodau ganddynt ar neges dwy bennod gyntaf Llyfr y Datguddiad lle portreadir saith eglwys yn derbyn negeseuon gan angel. Cefnogwyd y saith a siaradodd gan bobl ychydig yn iau a ddarllenodd y darn ysgrythur penodol.

Yn dilyn y gwasanaeth, buom yn ffodus i fwynhau barbeciw a drefnwyd gan Bryn Evans, Paul McVeigh ac Aled Richards.

**Dathlu Penblwydd**

Ganol Mis Awst dathlodd pedwar o'r aelodau eu pen-blwydd ar yr un diwrnod, sef Illtyd Lloyd, Sian Dowling, Huw Jones a Dafydd Wrennall. Roedd yn garreg filltir arbennig i Illtyd wrth iddo ddathlu ei ben-blwydd yn 90 oed. Llongyfarchiadau!

## EGLWYS Y CRWYS

Llongyfarchiadau i'n holl ieuenctid a fu'n llwyddiannus yn eu harholiadau yn ystod yr haf. Rydym yn dymuno'n dda i Carys Bill fydd yn cychwyn ar ei hastudiaethau ym Mhrifysgol Rhydychen ym mis Medi.

Mae'r Cymdeithasau wedi bod yn brysur yn ystod yr haf yn trefnu eu rhaglenni ar gyfer y tymor newydd. Yn ystod mis Medi bydd 'Prynhawn Da' yn croesawu'r Dr Rebecca Jones i'w hannerch ar 'Fywyd a Gwaith yng nghefn gwlad Bangladesh' ac mae'r Gymdeithas yn edrych ymlaen at noson hwyliog yng nghwmni Hywel Gwynfryn. Bydd y Gymdeithas Ddrama hefyd yn cychwyn ar ymarferion ddechrau'r mis ac mae croeso i unrhyw un sy'n awyddus i ymuno ddod i Theatr y Crwys bob nos Fercher erbyn 7.30 o'r gloch.

Cynhelir cyngerdd mawreddog yn Eglwys y Tabernacl nos Sul, Medi'r 29ain, am 7.30 o'r gloch gyda Côrdydd a C.Ô.R. (Côr Osian Rowlands), Jeffrey Howard a Miriam Isaac yn cymeryd rhan. Bydd hwn yn gyngerdd i lansio CD Newydd o drefniadau Jeffrey Howard o rai o'n hoff emynau a bydd yn dathlu y rhaglen 'Caniadaeth y Cysegr' Radio Cymru yn 70 oed. Cyflwynir y noson gan Caryl Parry Jones a bydd y mynediad am ddim. Pob dymuniad da i Osian.

Diolch i Eglwysi Cymraeg Caerdydd am eu croeso yn ystod mis Awst. Wedi dychwelyd i'r Crwys ddechrau Medi, bydd croeso i bawb ymuno yn ein gwasanaethau. Ni fydd gwasanaeth bore Sul cyntaf mis Hydref oherwydd Marathon Caerdydd ond byddwn yn croesawu'r Parch Robert Owen Griffiths i wasanaethu ac i weinyddu Sacrament y Cymun yn yr oedfa hwyrol am 6.00 o'r gloch. Bydd Mr. William Tiplady yn gwasanaethu yn oedfa'r bore ar Hydref 13eg a byddwn yn ymuno â'n cyfeillion yn Eglwys Ebeneser yn oedfa'r hwyr. Ar Hydref 20fed ceir Gwasanaeth Diolchgarwch yr Ysgol Sul yn y bore a gwasanaethir gan ein Gweinidog yn yr hwyr. Byddwn yn croesawu'r Parch. Dafydd Andrew Jones i'n harwain ar Hydref 27ain.

## BETHEL, RHIWBEINA


Llongyfarchiadau i'n gweinidog, y Parch. Evan Morgan ar gael ei ethol yn Llywydd y Gymanfa Gyffredinol ar gyfer 2020/21.

Ar Orffennaf 23 daeth Dr Jennie Hurd, Cadeirydd Synod Cymru atom i drafod gyda'r aelodau 'y ffordd ymlaen' i ni fel capel dros y 5 mlynedd nesaf. Braf oedd gweld cynifer yn y cyfarfod a chafwyd trafodaethau buddiol ar bedwar testun sef Addoli, Dysgu a Gofalu, Gwasanaethu, ac Efengylu.

Trist oedd clywed am farwolaeth un o'n haelodau hynaf, Mr Ken WIliams. Bu'n mynychu'r gwasanaethau ym Methel yn ffyddlon cyn i afiechyd ei rwystro yn y blynyddoedd diwethaf. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i deulu.

Yn ystod Gorffennaf bu'r gwasanaethau bore Sul dan arweiniad Mr Mansel Jones, y Parch. Evan Morgan a'r Parch. Aled Edwards. Ar Orffennaf 14 roedd y gwasanaeth yng ngofal yr aelodau a'r thema oedd 'Maddeuant'. Diolch i bob un a gymerodd ran.

Ni chynhaliwyd gwasanaethau ym Methel yn ystod mis Awst ond byddant yn ail-ddechrau ar Fedi'r 1af pan fyddwn yn croesawu'r Parch. Aled Edwards unwaith eto.



*Huw Jones, Dafydd Wrennall, Illtyd Lloyd a Sian Dowling*

## EGLWYS DEWI SANT

**Pererindod Caergrawnt**

Mae pobol yn dal i sôn am y Bererindod i Gaergrawnt ddechrau Gorffennaf ar drywydd William Tyndale, William Morgan ac Edmwnd Prys, pob un â chysylltiadau â Chaergrawnt, y Diwygiad Protestannaidd a chyfieithu'r Ysgrythurau i iaith y bobol.

Cafwyd sawl uchafbwynt ar y bererindod hon, yn enwedig cael gweld Beibl personol Mary Jones â'i llawysgrifen arno yn Llyfrgell Y Brifysgol a'r gwasanaeth cyn ymadael ar y bore olaf wrth y gofeb goffa i William Morgan ac Edmwnd Prys yng nghapel Coleg Sant Ioan. Diolch o galon i Gwynn a Mair Matthews am drefnu a llywio pererindod mor ysbrydoledig a bythgofiadwy gan gymryd gofal mawr am bopeth ymlaen llaw ac i Dyfrig ein Ficer am ei holl waith yntau yn paratoi a gweinyddu'r gwasanaethau.

**Banc Bwyd Caerdydd**

Unwaith eto, ynghanol Gorffennaf, casglwyd llawer iawn o nwyddau ar gyfer y cynllun gwerthfawr a hanfodol hwn.

**Y Gwasanaeth Teuluol**

Yn y gwasanaeth hwn ar Orffennaf y 14eg. cyflwynodd y Ficer wers dameg y Samariad Trugarog yn ddeniadol, gan ddefnyddio cartwnau ar sgrîn.

**Yr Ysgol Sul**

Bydd yr Ysgol Sul yn ailddechrau fis Medi a bydd Gwasanaeth Teuluol i deulu'r eglwys o bob oed am 10:30 ar Fedi'r 8fed.

**Teithiau Cerdded**

Daeth wyth o bobol ynghyd i gerdded ar draws gwlad i Sain Ffagan ar dywydd braf ganol Gorffennaf ac ar ddiwedd Awst. Mwynhawyd y daith gerdded o Ddinas Powys i Lanfair-y-pwll â'r tywydd yn berffaith eto.

**Coffi a Chlonc**

Wedi bore coffi hwyliog fis Gorffennaf, bu gwyliau fis Awst. Cynhelir yr un nesaf fis ar 21 Medi.

**Lansio Llyfr**

Nos Fawrth Gorffennaf 30, roedd neuadd Eglwys Dewi Sant yn llawn ar gyfer lansio llyfr o waith Gwynn Matthews, Warden y Bobol yn yr eglwys hon, sef 'Genefa, Paris a Dinbych ac Ysgrifau Eraill'. Noson addysgiadol a difyr tros ben.

**Datganiadau ar Organ yr Eglwys**

Cynhelir cyngerdd agoriadol Organfest Caerdydd nos Wener 6 Medi yn eglwys Dewi Sant am 7:30. Gerald Brooks, organydd Central Hall Westminster a Llywydd Coleg Brenhinol yr Organyddion fydd y datgeiniad. Tocynnau o Neuadd Dewi Sant am £12 y pen.



*Plwyfolion a Chyfeillion Eglwys Dewi Sant*

## MINNY STREET

www.minny street.org @MinnyStreet

Gweinidog: Y Parchg Owain Llyr Evans

Da fu cydaddoli ag aelodau eglwysi Cymraeg eraill y brifddinas dros yr haf. Diolch i'r gweinidogion am oedfaon bendithiol.

Edrychwn ymlaen ym mis Medi at ailgydio yn ein gweithgarwch fel eglwys ac at arweiniad brwd a goleuedig ein Gweinidog, Owain Llyr Evans. Fel arfer, bydd croeso i bawb – 'o'r ieuengaf i'r hynaf' – i'n hoedfaon ar y Sul (10:30 a 18:00). Y Gweinidog fydd yn arwain ein hoedfaon Sul cyntaf (Cymundeb yn y bore) ac ail Sul mis Medi ac oedfa'r bore ar y 15fed. Yn yr oedfa hwyrol ar y 15fed, cawn y pleser o groesawu cyfeillion o eglwysi Cymraeg eraill y ddinas i ymuno â ni yng Ngŵyl Flynyddol Minny Street dan arweiniad y Parchedig Evan Morgan (Eglwysi Salem, Treganna a Bethel, Rhiwbeina). Y Parchedig Aled Davies (Chwilog) fydd yn arwain yr addoliad yn oedfaon 22 Medi. Bydd Oedfa Foreol Gynnar ar 8 Medi (9:30) ac Ysgol Sul ar 15, 22 a 29 Medi. Aelodau'r eglwys fydd yn gyfrifol am oedfaon 29 Medi. Yn methu dod i'r oedfaon? Ymunwch â ni drwy gyfrwng negeseuon trydar @MinnyStreet #AddolwnEf (ar Suliau'r Gweinidog). Yn dechrau toc wedi 10:30/18:00.

Bydd PIMS yn ailgychwyn nos Lun, 9 Medi (pan fydd aelodau newydd yn cael eu croesawu) a chynhelir yr ail gyfarfod ar 23 Medi (19:00–20:30). Bydd hi'n braf ailgydio hefyd yng ngweithgarwch gweddill yr wythnos, sef Babimini (fore Gwener, 20 Medi am 9:45 yn y festri), Bethania (nos Fawrth, 10 a 24 Medi am 19.30 yng nghartref aelod) a Llynyddwch (ddydd Gwener, 27 Medi am 10:00 yng nghaffi Terra Nova, Parc y Rhath). Bydd cyfle i fwynhau Koinonia Pnawn ddydd Mercher, 11 Medi am 12:00 yn Caffe Fach, Rhiwbeina.

Bydd cyfle hefyd i gyfrannu nwyddau at elusennau a phrynu nwyddau Masnach Deg yn ystod y mis.

## MINNY'R CAFFI

Ym Minny'r Caffi gall gofalwyr, a'u hanwyliaid sy'n byw gyda dementia a heriau tebyg, ddod at ei gilydd am ysbaid o ymlacio a chyfle i gwrdd â phobol sydd mewn sefyllfa debyg.

Ymunwch â wynebau cyfeillgar yn ein caffi newydd yn festri Eglwys Minny Street, a fydd ar agor ar y dyddiau Gwener cynta a'r trydydd o'r mis rhwng 2 a 3.30 gan ddechrau ar Hydref y 4ydd.

Y mae croeso i bawb yn y Caffi. Dewch draw i ddweud helo:

- Lle i rannu profiad, lle i fynegi rhwystredigaeth, lle i rannu stori
- Lle y gallwch ymlacio a mwynhau eich hun dros baned
- Lleoliad diogel
- Te, coffi, danteithyn
- Dewis amrywiol o weithgareddau - neu jyst mwynhau paned
- Adloniant cerddorol achlysurol
- Defosiwn byr opsiynol.

Menter newydd yw hon gan Eglwys Minny Street. Mae nifer o eglwysi a sefydliadau eraill yn cynnig y math yma o wasanaeth ond nid oes yr un drwy gyfrwng y Gymraeg yn y ddinas hyd y gwyddom. Gobeithiwn y byddwn drwy hyn yn cymeryd cam bach at lenwi'r bwlch ac i fod yn "eglwys dementia gyfeillgar".

## EBENESER

**Cydymdeimlad**

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Mary Lewis, Y Rhath ar 2ail o Orffennaf. Cydymdeimlwn â'r plant, Geraint a Gwenda a gweddill y teulu yn eu colled a'u hiraeth.

**Ymweliad**

Ar b'nawn Iau 18fed o Orffennaf aeth criw da o'r Gymdeithas i ymweld â'r synagog ym Mhenylan. Cafwyd taith hynod ddiddorol o gwmpas yr adeilad a sgwrs ddifyr iawn. Diolch iddyn nhw am eu croeso.

**Dathlu**

Ar nos Sul 21ain o Orffennaf cyflwynwyd englynion gan John Gwilym Jones, wedi'u fframio, i Cedric Jones i ddathlu 60 mlynedd fel organydd. Dyma'r bennill gyntaf

Ar daith hirfaith dy yrfa - yn dy gamp
troist gerdd yn felystra,
a'i hael lif fel awel ha'
i'n hadfer yn ein hoedfa.

**Llongyfarchiadau i...**

...William Morgan ar ennill gradd ym Mhrifysgol Caerfaddon a phob dymuniad da iddo yn ei swydd newydd yn Glasgow fis Medi.

...Chloe Powell-Davies ar ennill gradd Meistr mewn perfformio ar y delyn yn Coleg Cerdd a Drama Cymru.

...Cynan Llwyd ar ennill gradd Doethuriaeth am ei waith ymchwil i eschatoleg mewn llenyddiaeth Gymraeg.

**Ffarwelio**



*Robin a Chloe*

Bydd Robin a Chloe Powell-Davies yn symud yn ôl i'r Wyddgrug yn ystod yr haf. Bydd Robin yn dysgu Mathemateg yn Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun a Chloe yn dysgu'r delyn. Braf oedd cael eu cwmni dros y ddwy flynedd diwethaf. Pob dymuniad da iddyn nhw i'r dyfodol.

**Odid**

Daeth tymor astudiaeth Feiblaidd Odid, sef cylch cyfarfod 'O Dŷ i Dŷ', i ben. Diolch i Cynan Llwyd am drefnu ac i bawb gefnogodd ac a ddangosodd letygarwch wrth agor eu cartrefi.

**Clwb Gwyliau**

Cynhaliwyd gweithgaredd plant o'r 24-26 o Orffennaf gyda gemau, posau, crefft, storïau Beiblaidd a llawer mwy. Diolch i'r 12 o ofalwyr a'r criw da o blant gafodd amser wrth eu bodd. Diolch i'r Eglwys Fethodistaidd, Yr Eglwys Newydd am fenthyg eu hadeilad.

## BETHEL, PENARTH

Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Moyra yn dilyn marwolaeth ei chwaer Mrs Dilys Griffiths. Cynhaliwyd yr angladd ar 8 Awst Cymerodd ein gweinidog ran yn yr angladd yng nghapel Caersalem, Tycroes lle bu Mrs Griffiths yn addoli ar hyd ei hoes.

Llawenhawn gyda Llinos Haf a enillodd gystadleuaeth Alaw Werin yn y Genedlaethol.

Llongyfarchiadau i Beca ac Aled ar eu canlyniadau lefel-A. Bydd Beca yn cymryd blwyddyn 'bwlch' yn crwydro Ewrop ac Aled yn cychwyn ym Mhrifysgol Caerwysg. Enillodd Rhiannon, chwaer Beca, radd Dosbarth 1 o Brifysgol Durham; ei bwriad yw dilyn cwrs ymchwil ym Mrifysgol Caergrawnt.

Edmygwn Menna, merch Helen ac Alun, ar redeg 50 milltir Ras Ultra Pen Llŷn mewn 9¾ awr, y ferch gyntaf i orffen. A'i sylw? 'Pa ffordd well i ddathlu penblwydd 50 oed na rhedeg 50 milltir?'

Pleser oedd derbyn gwahoddiad i gyfrannu at Ŵyl Flodau Eglwys San Pedr, Dinas Powys. Balm i'r llygaid oedd creadigaethau dychmygus Helen a Kevin.

Dymunwn yn dda i Ruth Benjamin (Evans gynt) wrth ymuno â staff Ysgol Gynradd Gwaun-y-Nant.

Dros y ddau Sul, 30 Mehefin a 7 Gorffennaf cawsom arweiniad Y Parchedig Noel Davies; ei thema oedd, 'Diwedd yr Efengyl a dechrau efengylu'.

Ar fore 14 Mehefin buom yn cyd-addoli gydag aelodau capeli ein Cyfundeb ym Mynydd Seion, Casnewydd. Am un o'r gloch buom yn cynnal Hwyl Haf yn Neuadd Jiwbili, Sili, gan gynnwys dathlu'r Cymun dan ofal ein gweinidog. Gweler y lluniau.

Ar 21 Mehefin Neville oedd yn arwain myfyrdod ar Broffwydi Heddi, gan dynnu ar ysgrifau yn y llyfr *Yr Alwad*, yn benodol gan Guto Prys ap Gwynfor a John Gwilym Jones.

Ar 28 Gorffennaf mewn oedfa dan ofal ein cyd-aelod Alun soniwyd am ddewrder gweinidogion a phrifathrawon lleol yn 1946/7 yn ardal Y Preselau. Asgwrn y gynnen oedd bwriad y Swyddfa Ryfel i feddiannu rhan o dir at bwrpas ymarfer rhyfel a felly yn bygwth dinistrio cymunedau lleol, yn benodol Maenclochog a Mynachlogddu. Bu tad Alun, Y Parchedig Moelwyn Daniel, yn weinidog ym Maenclochog ar y pryd ac yn gadarn ei wrthwynebiad, gyda chwmni eraill. I ddiweddu'r oedfa bu cyfle i wrando ar recordiad o'r darn 'Y Tangnefeddwyr', geiriau Waldo a cheddoriaeth Eric Jones.

## CYNGOR EGLWYSI CYMRAEG CAERDYDD

Ar fore Mercher, 17 Gorffennaf, aethon ni i Ysgol Glan Morfa erbyn naw i Agor y Llyfr am y tro cyntaf yn ein hanes. Catrin Roberts oedd y storiwraig a'r actorion Ifan Roberts, Alun Tudur, Adam Colman, Gwilym ac Eirian Dafydd. Y Picnic Gwych sef hanes Bwydo'r 5 Mil oedd yr arlwy. Diolch i'r Ysgol am y croeso.




*Criw Agor y Llyfr*

# Gwylio'r Geiniog



## Huw Roberts

*"Hyd yn oed os nad ydych yn cwblhau ffurflen dreth mae'n werth adolygu eich ffigyrau treth"*

Pan yn adnewyddu eich trydan / nwy / yswiriant modur neu gartref ewch ar lein i gymharu costau. Yn aml iawn gallwch arbed arian ac efallai gyda'r un cwmni ble mae eich yswiriant presennol!

Hyd yn oed os nad ydych yn cwblhau ffurflen dreth mae'n werth adolygu eich ffigyrau treth. Rhan fwyaf o'r amser bydd eich sefyllfa yn glir, ond mae o hyd bosibilrwydd o ordaliad neu dan-daliad o dreth incwm.

Gyda'r bunt yn isel, gwnewch y gorau o'ch arian pan ar wyliau tramor :

- trefnwch eich arian gwyliau ymlaen llaw – peidiwch byth â newid arian yn y maes awyr;
- talwch mewn arian lleol nid punnoedd:
- defnyddiwch gerdyn heb gostau tramor fel y Swyddfa Bost:
- byddwch yn wyliadwrus gyda chostau cyfathrebu y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd.

**Gofynnwch i Huw** :

Yr wyf eisiau gwerthu tŷ rhent a oedd yn gartref i mi – beth yw'r sefyllfa Treth ar Eiddo?

Os yn bosibl, gwerthwch cyn 6 Ebrill 2020 gan fod y rheolau yn newid ac yn mynd yn fwy llym o'r dyddiad hynny. Byddwch yn dal i dderbyn lwfans am y cyfnod yr oedd yr adeilad yn gartref ond mae lwfansau eraill yn cael eu lleihau a byddwch yn talu rhai miloedd yn fwy o dreth os ydych yn gwerthu ar ôl 6 Ebrill 2020.

Os oes gennych gwestiwn cyffredinol am y golofn anfonwch e-bost at huwrobertsaccountant@gmail.com neu trwy www.huwrobertsaccountant.cymru neu ffoniwch 029 2069 4524.

*Mae Huw yn gyfrifydd sy'n arbenigo mewn treth incwm, ewyllysiau a gwaith proffiant.*

# Agor y Drws
# Celfyddydau i Bawb



A fuoch chi erioed yn Neuadd Llanofer yn Heol Romilly, Treganna? Dyma un o ganolfannau celf hynaf ac anwylaf Caerdydd.

Ddydd Sadwrn, 15 Mehefin, cynhaliwyd gweithdy 'Celfyddydau i Bawb' i ddathlu 50 o flynyddoedd yn y Ganolfan Gelfyddydol Gymunedol! Diwrnod o hwyl celfyddydol teuluol oedd hwn, ac yn ystod y dydd cafwyd dros 250 o ymwelwyr. Bu'r oedolion a'r plant yn cael blas ar bob math o weithgareddau, yn cynnwys peintio, crochenwaith, sgiliau syrcas, gwaith gof arian, yoga, MineCraft, origami a Lego! Diwrnod llwyddiannus iawn!

Roedd Arweinydd Cyngor Caerdydd, Huw Thomas, yno i agor Arddangosfa Cyfeillion Neuadd Llanofer ac yn yr oriel roedd eitemau oedd yn wledd i'r llygaid. Dywedodd sawl un gymaint o 'ysbrydoliaeth' fu'r ganolfan iddynt ar hyd y blynyddoedd.

Agor y drws – celfyddydau i bawb! Dyna yw teitl gwefan newydd y Ganolfan. Yma gallwch ddod o hyd i wybodaeth am ddosbarthiadau, prosiectau a digwyddiadau cyfredol. Mae croeso cynnes i bawb.



*Pawb yn canolbwyntio*

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau calonnog i Owain Wilkins ar gyflawni Marathon Llundain yn ôl ym mis Ebrill a chodi £5600 tuag at yr elusen MDS (Syndrom Myelodysplastic). Mae Owain yn enedigol o Gaerdydd, yn gyn-ddisgybl Ysgolion y Wern a Glantaf ac erbyn hyn yn is-olygydd Hansard yn y Tŷ Cyffredin yn San Steffan.

# Llythyron

*Annwyl Ddarllenwyr y Dinesydd*

**Cyfres i Radio Cymru yn nodi 70 mlynedd ers sefydlu y Gwasanaeth Cenedlaethol**

Rhwng 1949 a 1963 bu'n rhaid i fechgyn o Gymru rhwng 17 a 21 oed ymrestru yn y fyddin. Cafodd dros gan mil o ddynion o Gymru eu gorfodi i adael eu cartrefi a'u teuluoedd er mwyn gwisgo lifrai milwr.

Dyma'r 'National Service' - y Gwasanaeth Milwrol Cenedlaethol. Dyma'r genhedlaeth ddaeth i oed ar ôl yr Ail Ryfel Byd, yr "in-betweeners" - yn rhy ifanc i ymladd yn yr Ail Ryfel Byd, yn rhy hen i fwynhau'r newidiadau cymdeithasol a ddaeth i bobl ifainc yn ystod y 1960au.

Mae Cwmni Silyn yn chwilio am gyfranwyr i sôn am eu profiadau yn ystod y cyfnod hwnnw ar gyfer cyfres newydd i Radio Cymru.

Buoch chi neu un o'ch perthnasau yn un o'r "milwyr bychain"? Os do, rydym yn awyddus i glywed am eich hanes ar gyfer ein cyfres newydd.

Disgwyl mlaen i siarad gyda chi!

Cysylltwch gyda Gaynor Jones ar 07775 847710 neu drwy ebost preseli31@gmail.com.

Pob hwyl a diolch

*Gaynor*



## Gŵyl Cerdd Dant Bro Nansi 2020

d/o Menter Iaith Maldwyn,
Y Groes,
Stryd Lydan,
Y Drenewydd,
SY16 2BB

*Annwyl Gyfaill,*

Rydym yn falch iawn i gyhoeddi y bydd yr Ŵyl Cerdd Dant genedlaethol yn cael ei chynnal yn Theatr Llwyn, Llanfyllin ar ddydd Sadwrn 14eg o Dachwedd 2020. Dyma'r tro cyntaf i'r Ŵyl ymweld â Maldwyn ers dros hanner can mlynedd. Hen bryd iddi ddychwelyd yma!

Bydd llygaid Cymru gyfan ar y gornel hynod yma o Faldwyn, ac rydym yn edrych ymlaen i ddangos yr ardal godidog yma i weddill y wlad. Mae'r ardal yma, a Chymru gyfan yn ddyledus iawn i Nansi Richards, Telynores Maldwyn am ddiogelu a hyrwyddo sawl elfen o'n diwylliant Cymreig, ac felly mae'r ŵyl wedi ei henwi mewn teyrnged i Nansi.

Fel cymuned mae angen i ni godi oddeutu 40 mil er mwyn cynnal yr Ŵyl. Mae'r gwaith o drefnu digwyddiadau codi arian eisoes ar y gweill. Rydym yn edrych am unigolion, busnesau, mudiadau neu gymdeithasau i noddi gwobrau'r ŵyl. Mae'r rhain yn amrywio o £20 i £500 ar gyfer y prif gystadlaethau. Efallai bod gan rhai o'ch darllenwyr gysylltiad gyda Nansi Richards, neu ardal Maldwyn ac yn awyddus i noddi cystadleuaeth. Cysylltwch â:
rhian@mentermaldwyn.cymru am gopi o'r rhestr o'r cystadlaethau sydd ar gael i'w noddi.

Mi fyddwn hefyd yn edrych am nifer helaeth o wirfoddolwyr i stiwardio ar diwrnod yr ŵyl, a gwerthfawrogwn bob cymorth gyda'r dasg yma. Os bydd angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch, mae croeso i chi gysylltu â mi yn uniongyrchol.

Yn gywir,

*Alun Jones*

Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith
07977 717164

**Yn Eisiau**

**Iard fach neu ddarn o dir i'w rentu yng Nghaerdydd neu yn y cyffiniau ar gyfer trin a storio coed tân.**

**Plîs cysylltwch gyda Gruff ar 07880 804 453 i drafod.**

**CYMRODORION CAERDYDD**

**Babi Sam**

**R. Alun Evans**

**Cyflwyniad gan y Llywydd newydd yn dilyn ei Arwisgiad**
**4 Hydref am 7.30 yn Festri Crwys**


**Mynediad rhad i aelodau: eraill £3**
**Croeso cynnes i bawb**

# Dyddiadur Deurodiwr Dŵad

Beiciwr bach diniwad yn dŵad nôl o dro i dro, i droedio, neu a deud y gwir, i ddeurodio hen lwybra a gweld be di be yn rhen Ga'rdydd ma.

**Lawr ar lan y moor**

Be' well ar ddiwrnod braf o haf na swae bach hamddenol ar y beic tua'r traeth. Cipolwg sydyn ar y map cyn cychwyn, yna i ffwrdd â fi. Mi gyrhaeddish i Gastell-nedd mewn chwinciad ac yna, wap, roeddwn yn Abertawe. Cyn pen dim cyrraedd Aberystwyth ac yna Aberdyfi. Yn ôl fy hen fap, rhaid oedd pasio Dinbych-y-pysgod, Pontypridd, Llanelli, Caerffili a Phenybont-ar-Ogwr cyn cyrraedd y traeth. Ond rwan roeddwn ynghanol rhyw gae chwarae agored.



Traeth y Sblot

Cerddai rhyw hen foi heibio yn llusgo'i gi-rhech ar ben tennyn. “Bora da”, me' fi, ac yna'n fy Susnag gora, *“Where am I?”*. A'i atab syn oedd “*You're in Kaardiff; this is Moorland Paark in Splott”*. Holais be' oedd enw'r lôn 'rochr draw i giât y parc. *“That's PortMANmoor Road, - what's left of it.”* Sylwais ar yr acen ar y goben, prawf mai Cymro oedd o, nid rhyw fewnfudwr diweddar o Brizzle.

*“Where's Bridgend Street?”* holais. *“Knocked down years ago along with most of the other streets. They knocked East Moors down too. Built all these workshops, they did. Didn't you see the plaque?”* Beiciais yn ôl heibio'r unig bedair stryd sy'n weddill; Aberystwith Street, Aberdovey Street, Swansea Street ac at ben Neath Street. Yno ar wal tŷ modern ar Walker Road roedd plac glas i gofio'r gymuned goll hon o bobl weithiol, a'r mil o dai a ddymchwelwyd.

Erbyn 1890 er bod yno ddigon o lo, roedd y mwyn haearn lleol wedi darfod ym Mlaenau'r Cymoedd a’r hen weithfeydd haearn dan anfantais. Cynigiodd yr Ardalydd Bute craff dir ar yr East Moors islaw Sblot Isa' a gerllaw'r dociau newydd a hwylusai'r mewnforio a'r allforio. Cododd cwmni Guest o Ddowlish waith dur mawr, modern yno – “*Dowlais by the sea”*. Datblygodd gwaith Guest, Keen & Nettlefolds yn fusnes llewyrchus a gyflogai filoedd.




Codwyd rhesi tai gweithwyr gerllaw - ugain o strydoedd, gan gynnwys y deg a enwyd ar ôl trefi yng Nghymru. Er mai mudo o Loegr a wnaeth nifer fawr o weithwyr y porthladd a'r gwaith dur daeth llawer o weddill Cymru. Roedd yna Gymry Cymraeg, fel y tystia achosion capeli'r Sblot, Jerusalem (MC), Ainon (B) a Bethlehem (A) - oll wedi eu dymchwel, bellach.

Nôl â fi i chwilio eto am PortMANmoor Road. Yma y magwyd Dame Shirley. Dim plac glas fa'ma'n y strydoedd coll i'w chofio hi; dim tai, dim cymuned, dim sŵn na mŵg y gwaith dur.

Ymlaen â fi trwy'r Ocean Business Park gan ddilyn Ocean Way at Rover Way. (Pwy neno'r tad sy'n enwi'r ffyrdd 'ma?). Sbecian. Gweld mymryn o lwybr troed trwy adwy gul â'i hochra metal yno i rwystro joi-reidars. Ond rhwydd hynt i ddeurodwyr fel finna. Pasio wal goncrit â graffiti eco-gyfeillgar *'FoE'* arni uwchlaw peipan fawr sy'n chwydu dŵr (tybed?) i'r bae bychan.

Mae'r traeth sy' yno fel rhai Tenerife, yn dywod du, ond nid tywod creigiau folcanig mohono. Siwrwd mân y glo a'r sinter a'r slag yw hwn – gwastraff y gwaith dur 'di ffeindio'i ffordd i bobman. Talpiau o slag a blociau a briciau clai o bob lliw o'r tai diflanedig a'r hen ffwrneisi. Enwau'r gwneuthurwyr wedi eu stampio arnynt: GKN, Graig Ddu, Clayton & Co. Pam trafferthu mynd i draeth prysur Barri-Eiland pan fod na draeth unig ac unigryw fel Traeth Sblot gerllaw?

Wedi orig ddifyr yn fforio'r Costa de Kaardiff mi droish am adra. Reidio eto trwy ddrysfa'r gweithdai. Ymlwybro'n dawel ar hyd Pacific Road a wele, ym mhen draw'r lôn, fragdy newydd sbon cwmni S A Brain & Co Ltd. Dwi'n reit hoff o Brains Dark - ges i fy magu arno! Ond mae'r ffaith mai'r “*Dragon Brewery”* (Susnag yn unig!) 'di enw fo a mai Wil Wêls, Dug Caergrawnt a'i agorodd yn deud cyfrola, a bron yn ddigon i'm troi'n ddirwestwr.

O ochra Bryste y daeth Samuel Arthur Brain i Gaerdydd i wneud ei ffortiwn, fel miloedd o Saeson dŵad eraill. Sefydlodd ei fusnes yn 1882 rôl prynu'r Hen Fragdy ar Stryd Caroline. Ganrif yn ddiweddarach fe'i gwerthwyd am elw mawr. Rwan mae'r bragdy presennol - hen un Hancock's, wedi ei werthu ar gyfer datblygiad y Central Quay. Mwy fyth o elw. Caeodd y cwmni lu o fân dafarnau traddodiadol gwerin-bobl y ddinas a throi at foddháu gofynion pobl yr yrban shîc, yr iypis, y sdiwdants, a'r fflyd penwsnosol o'r Cymoedd. Mae cwmni Brains yn enghraifft wych o redeg busnes yng Nghymru gan anwybyddu'r Gymraeg yn llwyr. Ond mi gaethon nhw un fflach o ysbrydoliaeth adeg Steddfod Caerdydd 1978, a nghrys-t i yn brawf o hynny. Trueni na fu mwy. A'r flwyddyn honno hefyd y dymchwelwyd gwaith East Moors.

Fuasai'r hen S A wrth ei fodd yn gweld ei ymerodraeth fusnes o'r fan lle y'i claddwyd yn 1903, ym mynwent Eglwys Awstin Sant ar dop trwyn Pen-y-garth. Yn anffodus, mae o'n gorwedd 'rochr draw i'r eglwys ac yn ei chysgod. Fasa fo'm yn medru gweld ei fragdy newydd beth bynnag. Mae llosgwr-gwastraff-i-greu-trydan cwmni Viridor yn y ffordd. Horwth o adeilad siapus o fetal sgleiniog, fel rhyw Guggenheim newydd - â simdda arall yn mygu dros East Moors!

Diawcs, mae'r beicio a'r sôn am gwrw wedi ’ngwneud i'n sychedig. Cyhoedda'r hysbýs ar bont Bute Street, “*It's* BRAINS *you want”*. Yn anffodus, mae'n haws ffeindio panad o goffi#1 na pheint o Daark yng Nghaerdydd dyddia' 'ma – ond i'r un pant y rhed y dŵr! *Olwyn ap Gron*

# Bwytai Merch y Ddinas

"Caewyd caffi Llaeth & Siwgwr yr Hen Lyfrgell, gan hefyd gau'r bennod ddiweddaraf yn saga hirfaith y ganolfan Gymraeg."



**Lowri Haf Cooke**

Croeso 'nôl! Sut aeth eich gwyliau? Ond tydi hi'n tywyllu'n gynharach fin nos?! Dwn i ddim amdanoch chi, ond mae hi'n (Lowri) Haf o hyd i mi... o leiaf tan i'r dail ddechrau crino ar y coed. Dwi'n bendant ddim yn barod i ddweud 'helo' i'r hydref, tan fydd 'Haf Bach Mihangel' wedi bod. Does dim math o awch arna i chwaith i lowcio bwyd 'cysur' yr Hydref: dwi am lynu at saladau, hufen iâ a gwin rhosliw cyn y bydd rhaid i mi estyn, yn anochel, am fy siwmper wlân!

Fel pob tymor haf, fe fu cryn fynd a dod, o ran teithio ledled Cymru a thu hwnt. A bu agor a chau, fel yn achos tro'r trai, yn sîn bwytai dinas Caerdydd.

Ar ddiwrnod fy mhen-blwydd, ces flas o Istanbul mewn caffi newydd 'insta-chic' ger Parc y Rhath. Mae caffi Blossom yn bur drawiadol gyda'i wal o rosod pinc, seigiau llysieuol, a the a phestris blasus iawn. Ewch fewn i ddweud helo wrth y perchennog, Selma, sydd hefyd yn athrawes fathemateg. Ges i de Twrcaidd hyfryd ganddi, a *Baklava* a channwyll pen-blwydd i nodi fy niwrnod mawr!



Yn nes at barlwr hufen iâ Joe's, agorodd *gelateria* a deli Green & Jenks - cangen o gaffi llwyddiannus yn Nhrefynwy. Dychwelyd 'adre' i'r Rhath mae'r perchennog Gilly Pollock – a fagwyd gerllaw ar Stryd Hendy - a dychwelyd 'adre' mae'r cwmni hefyd, mewn ffordd. Sefydlodd Frederick Green – hen hen dad-cu Gilly – Hufenfa'r Rhath ar Heol Albany yn 1888. Ond yn wahanol i hufenfa a siop groser ei chyndeidiau mae hi hefyd yn pobi bara a *croissants* ffres. Ceir silffoedd yn ogystal o fwydydd Cymreig, ac mae'r *gelato* ysgawen a mintys yn anfarwol!

Dafliad carreg i ffwrdd, ble safodd siop roddion Ushi's ar Heol Wellfield, mae cangen newydd Tai Te Waterloo. Sôn am gwmni lleol llwyddiannus sy'n hawlio tipyn o ymerodraeth, yn ymestyn o Benylan i dre Penarth. Rwy'n cofio sgwrsio â'r perchennog, Kas Ali, ar gyfer fy llyfr Canllaw Bach Caerdydd; y freuddwyd fawr bryd hynny – bron i ddegawd yn ôl - oedd trawsnewid caffi Llyn y Rhath. Rwy'n dal i obeithio y caiff y freuddwyd honno ei gwireddu!

Ar ddiwedd mis Awst, caewyd caffi Llaeth & Siwgwr yr Hen Lyfrgell, gan hefyd gau'r bennod ddiweddaraf yn saga hirfaith y ganolfan Gymraeg. Ai'r gofod ei hun sydd dan felltith, tybed? Ai rhent y cyngor sy'n rhy uchel? O ran y safle ar y llawr cyntaf, mae'n 'anweledig' i nifer o'r cyhoedd... ond eto, dyw cwmni *pizza* Ffwrnes yn y farchnad gyfagos ddim yn cael trafferth i ddenu cwsmeriaid. Bob tro y bues i yno'n ddiweddar, roedd Llaeth & Siwgwr wastad yn llawn bwrlwm, er bod llai o Gymraeg i'w glywed yno nag a fu. Rwy'n deall, uwchlaw, y ceir gofod a fyddai'n gwneud 'bar to' dinesig a hanner (pe byddai hynny'n bosib) gyda golygfa hynod drawiadol dros yr Ais. Beth bynnag a ddigwyddiff, rwy'n dymuno'n dda i'r fenter nesaf yno... ond tybed a oes atebion i'r cwestiynau uchod?

Mae un o gyn-gogyddion yr Hen Lyfrgell, John Cook (Ember @ Llaeth & Siwgwr, a bwyty Arbennig, gynt), ar fin agor ei far gwin a phlateidiau bychain, Nook. Gwyliwch allan am hwnnw – sy'n gydweithrediad rhyngddo ef a'i wraig Ceri, a Phil a Debs Lewis, Dusty Knuckle – tua diwedd mis Medi.

Yn y cyfamser, agorodd bar-bwyty nid annhebyg Tommy Heaney o Belffast, sef Uisce (sy'n golygu 'dŵr' yn yr iaith Wyddeleg), a saif drws nesaf i'w fwyty cyntaf, Heaney's ym Mhontcanna (ble y safodd Arbennig cyn hynny. Ydy, mae'n fyd bach!). Es yno ddiwedd mis Awst, a mwynhau nos Iau hamddenol braf; dewis diddorol o winoedd (er enghraifft, o Anatolia yn Nhwrci) a seigiau bychain, llawn blas, i'w rhannu rownd y bwrdd. Rhai o'r seigiau mwyaf trawiadol oedd y *croquettes* hwyaden, *pastrami* eog, a'r crymped a chig oen. Cafwyd yno adlais o awyrgylch bar Curado ganol dre, ond gyda blasau nodweddiadol o gryf y Gwyddel. Beth alla i ddweud? Coginio Celtaidd cyfoes ar ei orau!

A gair olaf i ganmol bwyty Mowgli's Street Food ger Eglwys Sant Ioan yng nghanol y dre, a agorodd ar ddiwedd mis Gorffennaf. Er yn fwyty llawn blasau o India, does dim perthynas o gwbl â chwmni cyrri llwyddiannus Mowgli's Caerdydd – mae hwn yn fwyty cadwyn a sefydlwyd gan Nish Katona o Gilgwri, a wnaeth ei henw ar y teledu. Fel rheol, rwy'n tueddu i osgoi cwmnïau cadwyn o dros y ffin fel y pla, ond cyfieithiwyd y fwydlen i'r iaith Gymraeg yn rhagorol. Ynghyd â'r parch at yr iaith, ges i flas ar y ddêl amser cinio, allai fwydo teulu cyfan yn fy marn i. Lle hynod atyniadol yng nghanol y ddinas, gyda choed llawn goleuadau tylwyth teg. Lle braf i fynd i swatio pan ddaw'r oerni a'r dail crin, ond tan hynny, cofiwch, mae hi'n Lowri Haf o hyd!

***Bwytai Cymru* a *Canllaw Bach Caerdydd* (Gwasg Gomer), £9.99 yr un.**

## Rhif: 194


A
D I N E S
R

### Ar Draws

1. Yn ein llys cawn gyrchfan i'r saint (4,4)
5. Yn Lloegr y mwyaf tenau (4)
9. 'O! Fy Iesu bendigedig,
   Unig gwmni f'enaid -----' (ET) (4)
10. Fel hyn y ganwyd yr etifedd (2,6)
11. 'Mae mwynder ----- a byd yn myned heibio,
    Diflanna oes fel breuddwyd gwael ei lun' (JOW) (5)
12. 500 yn dilyn Elsi druan er ei bod yn y felan (7)
13. 'Gwnaeth Duw'r ddau Foelwyn, meddant i mi,
    ----- ----- ----- ----- ei chadarnach hi' (WJ) (1,6,2,4)
18. Oes angen gras i ysu am ymgom? (8)
19. Cywasgu'n synfyfyriol i'r wisg (4)
20. Cael hawl i dynnu un allan o'r treuliau (7)
21. '----- yr Oesoedd! Cuddia fi
    Erf y mwyn yr holltwyd Di' (cyf OGO)(5)
22. Aderyn mewn cwmni coll (4)
23. 'Croesaw Medi, fis fy serch,
    Pan fo'r mwyar ----- ----- -----'(EW) (2,1,5)

### I Lawr

2. 'Mae gwahoddiad llawn at Grist,
   Oes i'r tlawd ----- trist' (PJ) (7)
3. 'Rwyn syn efallai yn yr ystyr cyffredin (7)
4. 'Does dim lle gwag 'rôl gwneud hyn (5,1,7)
6. Myfyrio am le i arlunio yn Lloegr (7)
7. Rhif yn swnio'n llai ond yn lluosog (7)
8. Gradd sy'n dal y gadair a'i bodio (6)
13. Bocs i gennad ddal y nwy (7)
14. Yn y lle iawn i gefnogwyr pêl-droed ar fore Sadwrn (2,1,4)
15. Braw y steward ar yn ail wrth weld hwn (6)
16. Trwy Sid rywsut daw dinistr (7)
17. Swclod yn chwyddo'r cylla yng nghanol yr Eglwys Newydd (7)



**Enillydd Croesair Rhif 192**
**Marian Lake, Llanfihangel ar Elai**

**Atebion Croesair Rhif 192**

**Ar Draws:** 1. Llandygái 5. Ased 9. Ponc 10. Ugeinfed 11. Ymson 12. Henadur 13. Bellach wedi mynd 18. Amneidio 19. Haid 20. Trawiad 21. Af ato 22. Iona 23. Mudandod

**I Lawr:** 2. Aros mae 3. Doctora 4. Argyhoeddiadau 6. Safadwy 7. Dedfryd 8. Simnai 13. Bractai 14. Llundain 15. Chwilio 16. Mehefin 17. Neilltuo

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Hydref, 2019
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN

## Caniadaeth y Cysegr yn 70 oed

Nos Sul Medi 29ain am 7.30pm yng Nghapel y Tabernacl, Caerdydd, cynhelir cyngerdd lawnsio CD o drefniannau emynau Jeffrey Howard.

Bydd
**Caryl Parry Jones**
yn cyflwyno
**Cordydd, C.Ô.R a Miriam Isaac.**

Mynediad am ddim!

Mae'r gyngerdd yn rhan o ddathliadau Caniadaeth y Cysegr yn 70 oed, ar y cyd â BBC Radio Cymru a Tŷ Cerdd.

## NEWYDDION YCHWANEGOL Y DINESYDD

Weithiau mae gormod o ddeunydd yn dod i law i'w gynnwys mewn rhifyn cyfredol. O ganlyniad mae'n rhaid cwtogi ar rai erthyglau. Mae'r cyfraniadau canlynol i'w gweld ar ein gwefan www.dinesydd.cymru. Y mis hwn ychwanegwyd adroddiad 'Cofio Tryweryn' i'r wefan.

## Gair o werthfawrogiad

**Dymuna pwyllgor Y Dinesydd ddiolch yn fawr i Gylch Cinio Merched Caerdydd am ei rhodd anrhydeddus a dderbyniwyd ar ddechrau'r haf.**

# CERDYN POST O BERLIN

## Lowri Haf Cooke yn holi Carys Huws

***Enw llawn: Carys Angharad Huws***
***Oedran: 28***
***Teitl swydd: Ffotograffydd a gwneuthurwr ffilmiau.***

**Un o ble ydych chi'n wreiddiol?** Ro'n ni'n byw yng Ngerddi Affrica, Gabalfa, cyn symud i Ffynnon Taf pan o'n i'n un. Er 'mod i wedi mwynhau byw yn agos i'r afon a Mynydd y Garth yn tyfu lan, do'n i ddim wir yn gwerthfawrogi'r ardal tan i fi symud i Lundain ar ôl astudio ffasiwn ym Mhrifysgol De Cymru.

**Pryd a sut lanioch chi yn Berlin, a beth ydych chi'n ei wneud yno?**
Symudais i Ferlin yn mis Chwefror 2017 ar ôl cael cynnig swydd gyda'r asiantaeth greadigol Yadastar er mwyn creu a golygu cynnwys ffotograffiaeth a ffilm ar gyfer sianeli digidol Red Bull Music Academy a Red Bull Radio. Symudais i o Lundain lle ro'n ni wedi bod yn gweithio i gylchgronau Dazed, The Vinyl Factory, The Spaces a FACT Magazine yn neud yr un fath o waith.



*Llun: Maxwell Schiano*

**Beth yw eich barn am y ddinas?**
Fi'n hoff iawn o awyrgylch *liberal* y ddinas, a sut mae'n bosib cwrdd a chyd-weithio gyda phobl diddorol o bob man o'r byd. Mae'n lle da i fyw ynddo fel person ifanc creadigol ac mae'n rhatach a mwy hamddenol na byw yn Llundain.

**Disgrifiwch eich diwrnod delfrydol yn Berlin... (bwyd, diwylliant, chwaraeon, o fore gwyn tan nos.)**
Galw yn Populous Coffee a mynd i ddarllen wrth ymyl y gamlas. Seiclo i Berlinische Galerie a Santes Agnes (oriel gelf mewn hen eglwys Brutalist) yna galw ym Modulor, siop anhygoel sy'n llawn nwyddau celf/deunydd sgrifennu. Cinio yn Cafe Goldberg, yna seiclo i un o lynnoedd y ddinas, yna coctels yn The Black Lodge, bar thema Twin Peaks yn ardal Neukolln…tra'n tynnu lluniau trwy gydol y dydd :)

**Pa 3 lle yno y byddech chi'n annog i rywun o Gaerdydd a'r Fro eu profi, er mwyn cael blas go dda o'r ddinas?**
Gwylio ffilm yn un o sinemâu awyr agored (*Freiluftkino*) y ddinas os ydi'r tywydd yn dda neu sinema arferol os na - mae'r ddinas yn llwyddo'n rhyfeddol i gadw'r hen sinemâu mewn stad dda. Seiclo o gwmpas Tempelhof, cyn-faes awyr wedi'i droi'n barc hamdden enfawr, sydd nawr hefyd yn un o wersylloedd mwyaf ffoaduriaid Ewrop. Mynd i glwb Berghain/Panorama Bar, un o glybiau enwoca'r byd gafodd ei enwebu'n 'sefydliad diwylliannol' gan y llywodraeth yn ddiweddar. Mae'r Garten yno yn grêt yn yr haf.

**Beth yw'r pryd bwyd gorau gawsoch chi yn Berlin?**
Methu dewis rhwng Takumi NINE yn Prenzlauer Berg, a Gazzo yn Neukolln.

**Ble mae'r olygfa orau yno?**
Yr olygfa o'r Berliner Fernsehturm, y tŵr teledu yn Alexanderplatz, bar Klunkerkranich ar Sonnenallee yn Neukolln a'r olygfa o Teufelsberg (sy'n golygu 'Mynydd y Diafol'), ardal yng nghoedwig Grünewald oedd yn orsaf wrando/glustfeinio yn ystod y Rhyfel Oer.

**Beth ydych chi'n ei golli fwyaf am Gaerdydd?**
Yn ogystal â ffrindiau/teulu, siarad Cymraeg, marchnad Caerdydd a Chippy Lane.

## Y Cyfryngau Cymdeithasol

**Cadwch mewn cysylltiad â'r Dinesydd ar Twitter trwy ddilyn ein cyfrif newydd @DinesyddCdydd ac ar Facebook trwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

## Y DIGWYDDIADUR

### Medi

**Mawrth, 10 Medi**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan Cefyn Burgess ar y testun 'Adeiladu ar Draddodiad', yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 7.00pm.
**Mercher, 11 Medi**
Noson gyntaf tymor newydd Merched y Wawr Bro Radur, yng Nghapel y Methodistiaid Saesneg, Ffordd Windsor, Radur, am 7.30pm, yng nghwmni Parti'r Efail.
**Sadwrn, 14 Medi**
Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 ar gyfer rhai sydd am ymarfer eu Cymraeg, yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays, CF24 4BX. Croeso i ddysgwyr ac i siaradwyr rhugl. Am 11.00am bydd Dr Cynan Llwyd yn trafod ei nofel newydd, *Tom*. Yr un adeg bydd dosbarth Cymraeg ar gyfer dechreuwyr dan arweiniad Amanda Griffiths. Mynediad am ddim: croeso cynnes i bawb.
**Sadwrn, 14 Medi**
Crochendy Nantgarw, Tyle Gwyn. Darlith gan Dr Eurwyn Wiliam, 'Hanes Crochendy Nantgarw o 1813 hyd heddiw', am 2.00pm. Mynediad i'r ddarlith ac i arddangosfa 'Gartre'n Ôl', sy'n dathlu daucanmlwyddiant creu porslen gorau Prydain ar y safle: £2.50.
**Llun, 16 Medi**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Sgwrs gan y Parch. Dyfrig Lloyd ar y testun 'O Lannau'r Môr Du i'r Caspian', yng nghapel Bethel, Rhiwbina, am 7.30pm. Croeso.
**Mercher, 18 Medi**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Sgwrs gan Malcolm Thomas ar y testun 'Profiadau', yn festri Capel Minny Street am 1.30pm.
**Mercher, 18 Medi**
'Y Gymraeg yng Nghanol Caerdydd.' Taith gerdded o gwmpas rhan o ganol y ddinas dan arweiniad yr Athro E. Wyn James. Ymgynnull y tu allan i gapel y Tabernacl ar yr Ais am 6.00pm. Dan nawdd Cymdeithas Cymru-Ariannin, Cangen y De. Croeso.
**Gwener, 27 Medi**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan y cyn-Archdderwydd a'r Prifardd T. James Jones ar y testun 'Iolo a'i Orwelion: Cerdd y Gadair 2019', yn Adeilad John Percival, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, CF10 3EU, am 7.00pm. Croeso cynnes i bawb.
**Gwener, 27 Medi**
Clwb Canna yn cyflwyno Geraint Løvgreen a'r Enw Da a'r Gerddorfa Ukelele, yng Nghlwb Rhyddfrydol Treganna am 8.00pm. Tocynnau: £10 (ar gael ymlaen llaw o Caban, Pontcanna).
**Sadwrn, 28 Medi**
Datganiad Organ gan Huw Tregelles Williams yng nghapel y Tabernacl, Yr Ais, am 12.30pm. Mynediad am ddim. Casgliad tawel ar y diwedd.
**Sul, 29 Medi**
Cyngerdd lansio CD o drefniannau Jeffrey Howard o rai o'n hoff emynau, i ddathlu pen-blwydd 'Caniadaeth y Cysegr' (BBC Radio Cymru) yn 70 oed. Eitemau gan Côrdydd, C.Ô.R, Jeffrey Howard a Miriam Isaac. Cyflwynydd: Caryl Parry Jones. Yng nghapel y Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm. Tocynnau am ddim. Trefnir y gyngerdd gan Parrog Cyf. mewn cydweithrediad â Tŷ Cerdd. Manylion: cordydd1@gmail.com; osian_llyr@hotmail.com.

### Hydref

**Mercher, 2 Hydref**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Taith Hydref i Grochendy Nantgarw.
**Iau, 3 Hydref**
Trysorau'r Ffydd. Un o gyfres o gyfarfodydd o dan arweiniad yr Athro E. Wyn James sy'n edrych ar rai o uchelfannau ein llenyddiaeth Gristnogol. Gwaith Morgan Llwyd fydd dan sylw yn y cyfarfod hwn. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, ar gornel Harriet St a Rhymney St, Cathays, CF24 4BX, am 7.30pm. Mynediad am ddim: croeso cynnes i bawb.
**Iau, 3 Hydref**
Cylch Cinio Merched Caerdydd yng Nghlwb Golff Radur am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Gwraig wadd: y newyddiadurwraig Jennifer Jones. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Llywydd, Rowenna E. Thomas (07811-802845 neu rowennat@gmail.com).
**Gwener, 4 Hydref**
Cymrodorion Caerdydd. 'Babi Sam'. Sgwrs gan y Parch. Ddr R. Alun Evans, Llywydd y Cymrodorion am 2019/20, yng Nghapel y Crwys, Heol Richmond, CF24 3AR, am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb. Ni chyfyngir y cyfarfodydd i aelodau yn unig. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, E. Gwynn Matthews: 029-2056-2880.
**Sadwrn, 5 Hydref**
Cynhadledd Flynyddol Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru yn Archifau Morgannwg, Clos Parc Morgannwg, Lecwydd, Caerdydd, CF11 8AW. Manylion pellach: enwaulleoedd@gmail.com
**Sadwrn, 5 Hydref**
Cyngerdd gyda Steffan Rhys Hughes, Jessica Robinson, Côr ABC, Merched Plastaf ac artistiaid eraill, yng Nghapel Salem, Treganna, am 7.30pm. Tocynnau: £5/£2 wrth y drws. Yr elw at Eisteddfod Caerdydd.
**Llun, 7 Hydref**
Noson gyntaf tymor newydd Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd. Cynhelir y cyfarfod yng ngwesty 'Cathedral 73', 73 Ffordd y Gadeirlan, CF11 9HE, am 7.30pm (noder y lleoliad newydd). Y siaradwyr gwâdd yw'r Barnwyr Mererid Edwards a Hywel James, a fydd y trafod eu gwaith yn y llysoedd, gan gynnwys y defnydd o'r iaith Gymraeg. Manylion pellach: billd.d2@tiscali.co.uk
**Mawrth, 8 Hydref**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Ymweliad â Llys Llywelyn, Sain Ffagan, yng nghwmni Mared McAleavey (Prif Guradur Ystafelloedd Hanesyddol yr Amgueddfa). Cwrdd ym mhrif fynedfa Amgueddfa yn Sain Ffagan am 11.00am. Cawl canol dydd.
**Mawrth–Iau, 8–10 Hydref**
Theatr Genedlaethol Cymru, mewn cydweithrediad â Theatrau Sir Gâr, yn cyflwyno *Y Cylch Sialc* (trosiad Mererid Hopwood o ddrama gan Bertold Brecht, gyda cherddoriaeth wreiddiol yn cael ei pherfformio'n fyw gan Gwenno), yn Portland House, 113–116 Bute Street, Caerdydd, CF10 5EQ. Pum perfformiad ar adegau amrywiol. Manylion pellach: https://www.wmc.org.uk/cy/digwyddiadur/2019/y-cylch-sialc/

**I anfon gwybodaeth i'r Digwyddiadur**
**gweler manylion ar dud. 2**

# Tymor Newydd CRCC

Bydd tymor newydd Clwb Rygbi Cymry Caerdydd yn dechrau ar Fedi'r 7fed gyda'r Clwb yn croesawu Llanharan i Bontcanna, ar gyfer y gêm gystadleuol gyntaf rhwng y ddau dîm. Bydd y Clwb yn gobeithio am ddechrau cryf i'r tymor, er mwyn gosod sail ar gyfer tymor llwyddiannus.

Mae gwynebau newydd wrth y llyw wrth i'r tymor gychwyn. Wedi dros ddegawd o ymroddiad i'r Clwb, mae Gareth Williams wedi camu lawr o'i rôl fel prif hyfforddwr, gyda Rhodri Davies yn arwain tîm newydd o hyfforddwyr. Etholwyd Rhys Luckwell yn gapten ar y Clwb am y tymor, gan bwysleisio'r effaith y mai e wedi cael ar y Clwb ers ymuno llai na blwyddyn yn ôl. Fel blaenasgellwr ymosodol a phwerus, bydd Rhys yn arwain trwy esiampl, a bydd yr arweinyddiaeth hyn yn allweddol os ydym am gael tymor llwyddiannus.

Gyda Threganna a St Albans wedi'u dyrchafu o Adran 3(b) ar ddiwedd y tymor diwethaf, bydd yr adran yn adlewyrchiad o ddyddiau'r Clwb yn chwarae yng nghynghreiriau Ardaloedd Caerdydd nôl yn y 70au a'r 80au.


*Rhys Luckwell*

Ar y pryd, roedd y ddau ohonynt, yn ogystal â'r Tyllgoed, yn wrthwynebwyr cyson i'r Clwb, a braf bydd gallu atgyfodi'r hen heriau hynny eto eleni. Byddwn ni hefyd yn edrych ymlaen at chwarae yn erbyn Pentyrch eto'r tymor hwn, gyda'r ddau dîm yn cystadlu am gwpan y Mochyn Du.

Roedd pob gêm llynedd yn gystadleuol tu hwnt, a does dim disgwyl y bydd pethau'n wahanol y tymor hwn, ond mae digon o reswm i fod yn optimistaidd. Mae'r nosweithiau ymarfer wedi bod yn bositif iawn, gyda niferoedd mawr wedi bod yn bresennol, gan gynnwys sawl gwyneb newydd, ac un neu ddau wedi ail-ymuno hefyd.

Mae'r Clwb hefyd am lansio menter i ail-gysylltu gyda'i gyn aelodau, trwy gyflwyno dyddiau i "Aelodau'r Clwb". Mae'r fenter yn agored i bawb, a'r gobaith yw denu cynifer o bobol ag sy'n bosib, yn enwedig cyn-aelodau'r Clwb, i ddod lawr i sgwrsio a hel atgofion gyda hen ffrindiau dros bryd o fwyd, cyn gwylio'r Clwb yn chwarae. Y bwriad yw cynnal y cyntaf o'r diwrnodau hyn ar Ddydd Sadwrn, Hydref 19eg, ac felly os oes diddordeb gennych byddwch cystal â chysylltu â Gareth ar garethwilliams50@hotmail.com neu John ar johnpj142@gmail.com

Mae rhagor o wybodaeth yw ganfod ar wefan y Clwb: https://www.clwbrygbi.com/


Hywel Samuel & Associates
deintyddfa
dental practice

*Eich deintyddion yng nghanol y ddinas!*

- *triniaethau NHS/Preifat*
- *deintyddion newydd i'r tîm –*
- *Tristan Roberts BDS*
- *Sioned Samuel BDS, BA*
- *lle i gleifion newydd- cynta i'r felin ...*

*Cysylltwch i wneud apwyntiad-* 029 20371393
www@hywelsamuel.co.uk
info@hywelsamuel.co.uk

28, Heol Eglwys Fair / 28, St Mary Street,
Caerdydd CF10 1AB.



HeatGlow
Gas Safe
Plymio a Gwresogi

Gwresogi
Gwresogi tanlawr | Gwasanaethu Boeler | Gosod Boeler | Gosod Rheiddiaduron | Tystysgrif Nwy

Ystafell ymolchi
Dylunio | Gosod | Adnewyddu

Plymio
Toiledau | Plymio Cyffredinol | Dŵr yn Gollwng

Pam dewis Heatglow
- Gwasanaeth holl Gymraeg
- Gwasanaeth proffesiynol rhagorol
- Peirianwyr nwy profiadol iawn gyda dros 25 mlynedd o brofiad
- Pob agwedd o wresogi, nwy a plymio
- Mae ein holl waith o dan warant
- Gwasanaeth ôl ofal o'r radd flaenaf

Cymraeg

www.heatglow.co.uk
Ffoniwch: 07710827477